

Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Polisi Cynllunio



Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint

Cytundeb Darparu

Chwefror 2014



Crynodeb Gweithredol

Mae cynllunio yng Nghymru wedi'i seilio ar system a arweinir gan Gynllun Lle y caiff cynlluniau datblygu eu paratoi gan bob awdurdod er mwyn bodloni anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pob Sir. Mae cynlluniau datblygu'n cynnwys fframwaith o bolisiâu a chynigion sydd â'r nod o reoleiddio a rheoli datblygiad tir a'r defnydd ohono a chynnig sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a thryloyw am geisiadau cynllunio unigol.

Yn sgil mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Sir y Fflint, mae'r Cyngor bellach wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer y Sir. Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn ffurf newydd ar Gynllun Datblygu sy'n wahanol i'r CDU o ran sut y caiff ei baratoi. Nodwedd allweddol o'r broses CDLI yw'r cyfle i ymgysylltu yn gynnar yn y broses, fel y caiff pobl y cyfle i ddylanwadu ar y Cynllun wrth iddo fynd yn ei flaen.

Paratoi Cytundeb Cyflenwi yw'r cam cyntaf ym mhroses y CDLI. Yn ei hanfod, mae'r Cytundeb Cyflenwi yn gynllun prosiect sydd â'r nod o amlinellu 'amserlen' ar gyfer paratoi'r Cynllun a 'chynllun cynnwys y gymuned' sy'n esbonio sut a phryd y caiff pobl gyfle i ymwneud â'r broses o'i baratoi a chael eu cynnwys mewn trafodaethau ar gamau allweddol.

Gwahoddodd y Cyngor bobl i roi sylwadau am y Cytundeb Darparu drafft er mwyn sicrhau fod consensws eang ynglŷn â'r ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu paratoi'r Cynllun. Dylai hyn helpu i sicrhau bod y Cynllun yn datblygu'n ddidrafferth ac osgoi anghydfod ac oedi yn ddiweddarach.

Roedd y Cytundeb Darparu yn destun ymarfer ymgynghori rhwng 5 Awst 2013 a 30 Medi 2013. Cafodd y sylwadau a dderbyniwyd eu hystyried gan Grŵp Strategaeth Cynllunio'r Cyngor a'u hadrodd wedyn wrth y Cabinet ar 21 / 01 / 14. Cyflwynwyd y Cytundeb Darparu'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ar 23 / 01 / 14 ac fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 12 Chwefror 2014. Mae copi o'r llythyr cymeradwyo i'w weld yn Atodiad 9.

Gellir gweld Fersiwn y Cytundeb Cyflenwi ar wefan y Cyngor www.flintshire.gov.uk/udp, yn Nerbynfaf'r Adran Gynllunio yn Neuadd y Sir ac yn Swyddfeydd y Cyngor yn Y Fflint. Gellir ei harchwilio hefyd yn swyddfa Treffynnon yn Cysylltu ac ym mhob llyfrgell. Bydd y Cyngor yn monitro cynnydd y cynlluniau yn agos yn erbyn y Cytundeb Darparu cymeradwy.

Dylid afnon unrhyw sylwadau naill ai am y CDLI neu'r Cytundeb Darparu neu unrhyw ymholiadau at:

Pennaeth Cynllunio
Yr Is-adran Polisi Cynllunio
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
CH76NF

Llinell gymorth CDLI: 01352
703213
Ffacs: 01352 756444

developmentplans@flintshire.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cyd-destun	3
Fformat a Chynnwys y CDLI	5
Ffit Gorfforaethol	5
Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol	6
Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd	7
Asesiad o Effaith ar Iechyd	7
Prawf Cadernid	7
Canllaw Cynllunio Ategol	8
Amserlen	9
Gwneud Penderfyniadau	10
Adnoddau	10
Rheoli Risgiau	11
Cynllun Cynnwys y Gymuned	14
Sut a Phryd fydd y Gymuned yn cael ei chynnwys?	15
Dulliau Ymgysylltu ac Ymgynghori Presennol ac Arfaethedig	15
Cyrff Ymgynghori	16
Rolau a Disgwyliadau	17
Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol	18
Grŵp Strategaeth Cynllunio	19
Gweithgor Technegol SA/SEA	19
Creu Consensws	19
Argaeledd Dogfennau ac Adborth	19
Deiseb	20
Yr Iaith Gymraeg	20
Amserlen Fanwl / Cynllun Cynnwys y Gymuned	21
Monitro ac Adolygu	39
Atodiadau	40

Rhagarweiniad

Beth yw Cynllun Datblygu Lleol?

Mae system a arweinir gan gynlluniau ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer ei ardal weinyddol (amlinellir map o'r Sir yn Atodiad 1). Bydd y CDLI yn amlinellu polisiâu a chynigion y Cyngor mewn perthynas â datblygu tir a'r defnydd ohono. Wedi iddo gael ei fabwysiadu, bydd y CDLI yn sail statudol i benderfyniadau cynllunio yn y Sir.

Beth yw Cytundeb Cyflenwi?

Mae Cytundeb Cyflenwi yn ddogfen lle mae'r Cyngor yn amlinellu sut a phryd y mae'n bwriadu paratoi'r CDLI. Mae'n rhaid i'r Cytundeb Cyflenwi gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae'n rhaid iddi gytuno arno. Mae'n rhaid i'r CDLI gael ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi a bydd hyn yn un o'r profion o 'gadernid' y Cynllun pan gaiff ei archwilio gan Arolygydd Cynllunio annibynnol. Mae i'r Cytundeb Cyflenwi ddwy ran:

- Amserlen – mae'r Amserlen yn amlinellu'r camau a'r dyddiadau allweddol ar gyfer y broses baratoi. Mae'r camau sy'n arwain at ac yn cynnwys yr Ymgynghoriad ar Adnau yn 'derfynol' h.y. o dan reolaeth y Cyngor i raddau helaeth, ond mae'r camau o'r adeg Cam Sylwadau ar Ddyrannu Safleoedd hyd at fabwysiadu yn 'ddangosol' gan y gallai cynnydd ddibynnu ar ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.
- Cynllun Cynnwys y Gymuned – mae'r Cynllun hwn yn esbonio sut y gall datblygwyr, y cyhoedd a grwpiau â buddiant gyfrannu at baratoi'r CDLI a dylanwadu arno. Bydd yn esbonio sut a phryd y byddwn yn ymgynghori â phobl, sut y caiff eu sylwadau eu hystyried a sut y caiff adborth ei roi.

Cyd-destun

Y Cynllun Datblygu Presennol

Y fframwaith cynllunio presennol ar gyfer Sir y Fflint yw'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) mabwysiedig. Fe'i mabwysiadwyd ar 28 Medi 2011 ac mae cyfnod y Cynllun yn ymestyn o 2000 hyd at 2015. Ar ddiwedd 2015, hwn fydd y cynllun datblygu mabwysiedig ar gyfer y Sir o hyd, ond bydd angen gofalu ei fod yn cydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru, yn enwedig lle mae hyn wedi newid ers mabwysiadu'r CDU. Bydd monitro'r CDU yn flynyddol yn fodd o amlygu meysydd polisi allweddol nad ydynt yn cyd-fynd â'r arweiniad cynllunio diweddaraf.

Y Cynllun Datblygu Lleol

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod yng Nghymru baratoi CDLI ar gyfer ei ardal. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLI yn disodli'r CDU mabwysiedig. Mae'n rhaid paratoi'r CDLI yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Llofnodwyd gorchymyn cychwyn gan Lywodraeth Cymru sy'n amlinellu'r ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i hwyluso'r broses o baratoi'r CDLI ar gyfer Sir y Fflint. Mae rhagor o arweiniad am Gynlluniau Datblygu Lleol ar gael yn y cyhoeddiadau a ganlyn gan Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio:

- [CDLI Cymru 'Cynllunio'ch Cymuned' – canllaw syml cam wrth gam a gyhoeddwyd ar ffurf pamffled yw hwn](#)

- Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru – trosolwg mwy cynhwysfawr o nodau, egwyddorion a phroses baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol
- Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol – dogfen gyfeirio fanwl sy'n cynnig arweiniad ymarferol a thechnegol, wedi'i bwriadu'n bennaf ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â pharatoi Cynlluniau Datblygu Lleol
- Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol – Arweiniad ar Weithdrefn, Yr Arolygiaeth Gynllunio (2009)

Bydd angen hefyd i'r CDLI gael ei baratoi gan ystyried y cyngor a roddir yn y dogfennau a ganlyn:

- Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 5 (Tachwedd 2012)
- Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) (TANs)
- Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (MPPW) (2000)
- Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTANs)
- Cynllun Gofodol Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol (2004 – diweddarwyd yn 2008)
- Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint
- Strategaeth Cymru ar gyfer Gwastraff a Chynlluniau Gwastraff Rhanbarthol
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Strategaeth Dai Leol Sir y Fflint
- Strategaeth Adfywio Sir y Fflint
- Cynllun Rheoli AHNE

Gan gyfeirio at yr arweiniad perthnasol uchod, nod y system newydd yw sicrhau:

- Sail dystiolaeth well i hysbysu'r Cynllun
- Ffyrdd mwy effeithiol o gynnwys y gymuned
- Integreiddio gwell â strategaethau a dogfennau eraill
- Dogfen fwy strategol ac uchelgeisiol sy'n adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau lleol
- Ymatebolrwydd ac effeithlonrwydd o ran y broses o lunio'r cynllun
- Mabwysiadu o fewn pedair blynedd

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r strategaeth gynllunio a'r fframwaith polisi ar gyfer y Sir am gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2015 a 2030. Caiff ei ddefnyddio gan y Cyngor i arwain a rheoli datblygiad a buddsoddiad, gan gynnig sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio mewn ffordd gyson a thryloyw. Thema allweddol y Cynllun fydd datblygu cynaliadwy. Nod datblygu cynaliadwy, fel y'i hamlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru yw "galluogi pawb ym mhedwar ban byd i fodloni eu hanghenion sylfaenol a mwynhau ansawdd bywyd gwell heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol." Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn disodli'r CDU mabwysiedig, a hwn fydd y fframwaith cynllunio lleol newydd ar gyfer Sir y Fflint.

Fformat a Chynnwys y CDLI

Yn unol ag arweiniad, dylai'r CDLI fod yn ddogfen unigol a dylai gynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Rhagarweiniad;
- Strategaeth yn seiliedig ar weledigaeth sy'n cynnwys nodau ac amcanion allweddol, polisïau allweddol, lleoliad bras ar gyfer datblygu, mynegiant gofodol o ran y strategaeth, targedau a dangosyddion monitro allweddol a diagram allweddol;
- Polisïau ardal gyfan ar gyfer datblygu;
- Dyraniadau tir a safleoedd cysylltiedig;
- Polisïau a chynigion penodol ar gyfer meysydd allweddol o ran newid neu warchod;
- Cyfiawnhad rhesymegol i esbonio polisïau ac arwain y broses o'u rhoi ar waith; a
- Map cynigion ar sail ddaearyddol.

Addasrwydd Corfforaethol

Mae'r Cyngor yn ymrwmo i gyflawni ei nodau a'i amcanion corfforaethol drwy ei strategaethau a'i ddogfennau polisi amrywiol. Mae datblygu cydberthynas gorfforaethol rhwng y dogfennau hyn yn ganolog i gyflawni unrhyw ddyheadau o ran defnyddio tir yn effeithiol a geir ynddynt, drwy'r CDLI.

Mae'r CDLI yn ddogfen strategol allweddol ac mae'n hanfodol ei bod yn cael ei pharatoi mewn ffordd gydlynol a chydgyssylltiedig, er mwyn sicrhau ei bod yn 'addas' ar lefel gorfforaethol. Bydd ystod eang o ddogfennau'r Cyngor yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y CDLI ac mae enghreifftiau'n cynnwys y Strategaeth Dai Leol, y Strategaeth Cefn Gwlad, y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Strategaeth Iechyd a Lles i enwi ond ychydig. Mae'r Strategaeth Iechyd a Lles yn cyflwyno mater iechyd cymunedol i'r CDLI a chaiff hyn ei ystyried yn fanylach drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd o ran y cynllun.

Mae'r CDLI yn un o'r pedwar prif gynllun strategol y mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i'w paratoi. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cynnig y strategaeth hollgynhwysfawr ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid s'yn darparu gwasanaethau allweddol. Nod y CDLI fydd trosi agweddau allweddol y Strategaeth Gymunedol cyn belled ag y maent yn gysylltiedig â datblygu tir a'r defnydd ohono. Mewn geiriau eraill, nod y CDLI fydd cynnig mynegiant gofodol o'r Strategaeth Gymunedol. Mae hon yn elfen hollbwysig o ran paratoi'r Cynllun gan mai un o 'brofion cadernid' y Cynllun yw ei fod wedi ystyried Strategaeth Gymunedol y Cyngor.

Mae i Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint 2009-2019 'Gweithio / Gweithredu gyda'n Gilydd dros Sir y Fflint' weledigaeth sy'n golygu bod Sir y Fflint yn Sir sy'n croesawu'r canlynol:

- Ffyniant economaidd
- Gwella iechyd
- Dysgu a sgiliau bywyd
- Byw'n gynaliadwy
- Cymunedau diogel a chefnogol

Mae i'r Strategaeth Gymunedol nifer o ystyriaethau allweddol hefyd a ddylai fod wrth wraidd y broses o'i chyflawni ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Newid yn yr hinsawdd
- Cydraddoldeb
- Datblygu cynaliadwy
- Y Gymraeg

Gan droi at gyd-destun ehangach y Cynllun, amlinellir proffil economaidd-gymdeithasol byr o'r Sir yn Atodiad 2.

Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylchedd Strategol

Mae ymgymryd ag arfarniad cynaliadwyedd yn rhan annatod o'r broses o baratoi'r Cynllun er mwyn sicrhau bod effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ei strategaeth a'i bolisiâu'n cael eu harfarnu o'r cychwyn cyntaf. Bydd yn sicrhau bod y Cynllun yn y pen draw yn cyflawni datblygu cynaliadwy ar lefel sylfaenol. Mae'n rhaid hefyd i'r Cyngor gydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC yn ymwneud ag asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd, sy'n cael ei galw'n fynych yn Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Mae Asesu Amgylcheddol Strategol yn broses asesu amgylcheddol ffurfiol ar gyfer cynlluniau penodol sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Yn y ddogfen hon drwyddi draw ac mewn dogfennau dilynol, dim ond y term Asesiad Strategol (AS) a gaiff ei ddefnyddio fel arfer ar y sail y caiff yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ei ymgorffori ym mhroses a dogfennaeth yr Asesiad Strategol (AS).

Y pum prif gam ar gyfer cynnal AS yw:

- Cam A – pennu'r cyd-destun a'r amcanion, gan sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar y cwmpas;
- Cam B – datblygu a mireinio dewisiadau ac asesu effeithiau;
- Cam C – paratoi'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd;
- Cam Ch – ymgynghori ar y dewis ffafriedig ar gyfer y cynllun datblygu ac Adroddiad yr AS;
- Cam D – monitro effeithiau arwyddocaol o ran rhoi'r cynllun datblygu ar waith.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlygu'r tasgau AS allweddol yn ôl prif gamau paratoi'r Cynllun ac maent wedi'u hamlinellu yn y tabl isod:

Cam y CDLI	Tasg AS
Cytundeb Cyflenwi	Ystyried camau gwaith AS yn yr Amserlen Adnabod prosesau ymgynghori ar gyfer AS yn y Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS)
Casglu Tystiolaeth ac Amcanion	Sgrinio Adolygu polisiâu, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill ac amcanion cynaliadwyedd Casglu gwybodaeth sylfaenol a gwybodaeth arall Amlygu materion a phroblemau yn ymwneud â chynaliadwyedd Datblygu'r fframwaith AS Paratoi ac ymgynghori ar adroddiad cwmpasu'r AS Rhoi amcanion y CDLI ar brawf yn erbyn y fframwaith AS

Dewisiadau Strategol a'r Strategaeth Ffaffriedig	Datblygu dewisiadau'r CDLI Rhagweld effeithiau dewisiadau'r CDLI Gwerthuso effeithiau dewisiadau'r CDLI Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau niweidiol a chynyddu effeithiau manteisiol cymaint â phosibl Cynnig mesurau i fonitro effeithiau arwyddocaol yn ymwneud â rhoi'r CDLI ar waith Paratoi'r adroddiad AS Ymgynghoriad cyhoeddus ar strategaeth ffaffriedig y CDLI a'r adroddiad AS Arfarnu newidiadau sylweddol yn deillio o'r ymgynghoriad
Paratoi ac Adneuo'r CDLI	Diweddarau'r AS Ymgynghoriad cyhoeddus ar y CDLI ar Adnau a'r Adroddiad AS
Cyflwyno, Archwilio a Mabwysiadu	Rôl yr arolygydd yn yr archwiliad Datganiad mabwysiadu ac Adroddiad AS terfynol
Monitro ac Adolygu	Cymeradwyo nodau a dulliau ar gyfer monitro Ymateb i effeithiau niweidiol

Asesu Rheoliadau Cynefinoedd

Yn Sir y Fflint, ceir nifer o ddynodiadau Ewropeaidd gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (y mae'r ddau hefyd yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), ac mae Aber Afon Dyfrdwy yn safle Ramsar. Mae'r rhain yn cael eu galw'n fynych yn safleoedd 'Ewropeaidd' neu safleoedd 'Natura 2000'. Yn unol â thelerau Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol...) 1994 (fel y'u diwygiwyd yn 2007), mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu, cyn mabwysiadu CDLI, p'un a yw'r Cynllun yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar safle Ewropeaidd. Os gallai'r Cynllun gael effaith sylweddol ar unrhyw safle Ewropeaidd, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal 'asesiad priodol' o'r Cynllun i ddirnad p'un a fyddai'n effeithio'n negyddol ar gyfanrwydd y safle. Os na ellir diystyru unrhyw effaith o'r fath, byddai angen i'r Cyngor ddiwygio'r Cynllun i atal yr effeithiau hyn rhag codi. Ni fydd yr Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd yn rhan o'r Asesiad Strategol/Asesiad Amgylcheddol Strategol ond caiff ei baratoi ochr yn ochr ag ef.

Asesiad o Effaith ar Iechyd

Caiff iechyd a lles eu hystyried a'u hintegreiddio drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLI drwy ddefnyddio asesiad o effaith ar iechyd. Mae hon yn broses systematig ond hyblyg sy'n asesu effeithiau positif a niweidiol posibl y Cynllun arfaethedig ar iechyd a lles wrth iddo ddechrau a'r modd y bydd yn effeithio ar boblogaeth Sir y Fflint. Bydd hefyd yn ystyried anghydraddoldeb ac yn asesu'r effeithiau posibl ar grwpiau sy'n agored i niwed yn y boblogaeth. Bydd yr Asesiad hwn yn darparu cyfres o argymhellion ac awgrymiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn cael eu cynnwys yn Arfarniad Cynaliadwyedd y CDLI. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i symud yr Asesiad ymlaen drwy gamau paratoi allweddol y CDLI.

Profion Cadernid

Bydd angen i Arolygydd Cynllunio gynnal archwiliad annibynnol i ddirnad p'un a yw'r Cynllun yn 'gadarn' ai peidio. Rhagdybir bod y Cynllun yn gadarn oni ddangosir fel arall o ganlyniad i ystyried dystiolaeth drwy

gydol yr archwiliad. Felly, lle bo'n bosibl, dylai pobl sy'n rhoi sylwadau ar y cynllun gyfeirio at y profion cadernid hyn. Mae 10 maen prawf ar gyfer asesu cadernid sy'n perthyn i dri chategori, sef: gweithdrefnol, cysondeb, a chydlyniant ac effeithiolrwydd. Atgynhychir y meini prawf cadernid isod:

Gweithdrefnol	
G1	Paratowyd y cynllun yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi gan gynnwys Cynllun Cynnwys y Gymuned.
G2	Mae'r cynllun a'i bolisiau wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.
Cysondeb	
C1	Cynllun defnydd tir ydyw sy'n rhoi sylw i gynlluniau, polisiau a strategaethau perthnasol eraill yn ymwneud â'r ardal neu ag ardaloedd cyffiniol.
C2	Mae'n rhoi sylw i bolisi cenedlaethol.
C3	Mae'n rhoi sylw i Gynllun Gofodol Cymru.
C4	Mae'n rhoi sylw i'r Strategaeth Gymunedol / Strategaethau / Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol perthnasol.
Cydlyniant ac Effeithiolrwydd	
CE1	Mae'r cynllun yn amlinellu strategaeth gydlynol y mae ei bolisiau a'i ddyraniadau'n deillio ohoni'n rhesymegol a, lle mae materion trawsffiniol yn berthnasol, nid yw'n mynd yn groes i'r cynlluniau datblygu a baratowyd gan awdurdodau cyfagos.
CE2	Mae'r strategaeth, y polisiau a'r dyraniadau'n realistig ac yn briodol ar ôl ystyried y dewisiadau amgen perthnasol ac maent wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn a chredadwy.
CE3	Mae'n cynnwys mecanweithiau eglur ar gyfer gweithredu a monitro.
CE4	Mae'n rhesymol hyblyg er mwyn caniatáu iddo ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.

Canllawiau Cynllunio Atodol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisiau a chynigion digonol i fod yn sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, ac ar gyfer penderfynu ar amodau i'w hatodi i ganiatâd, ond y dylent osgoi manylder gormodol. Mae defnyddio canllawiau cynllunio atodol (CCA) yn ddetholus yn fodd o amlinellu arweiniad manylach am safleoedd penodol neu themâu yn ymwneud â sut y caiff y polisiau yn y CDLI eu rhoi ar waith mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol.

Lle y bo'n angenrheidiol ac yn briodol, bydd y Cyngor yn defnyddio CCA yn ddetholus fel ffordd o roi arweiniad ar sut y caiff polisiau a chynigion y CDLI eu cymhwyso a'u rhoi ar waith. Er na fydd unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol dilynol yn rhan o'r cynllun datblygu, mae'n rhaid iddynt ymwneud â Pholisi CDLI. Efallai y byddant yn cynnwys arweiniad ar bynciau penodol, nodiadau briffio am safleoedd penodol, canllawiau dylunio neu feysydd ar gyfer gweithredu.

Caiff gofynion y CCA eu hamlygu yn ystod proses baratoadol y cynllun. Yn yr achosion hynny lle y daw gofyniad i'r amlwg, bydd y broses o'i baratoi'n destun ymarfer ymgynghori ffurfiol cyn ei fabwysiadu. Caiff

datganiad ynghylch ymgynghori a manylion am sylwadau sydd wedi dod i law eu cyhoeddi gyda'r CCA cymeradwy. Ymgynghorir ar Ganllawiau Cynllunio Atodol wrth iddynt gael eu llunio. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ag adrannau mewnol a gosod y nodyn ar y wefan er mwyn i unrhyw bartion â buddiant a'r cyhoedd ei ystyried. Fodd bynnag, ni ellir mabwysiadu CCA yn ffurfiol hyd nes i adroddiad rhwymol yr Arolygydd ddod i law ar y CDLI a'i bod yn amlwg nad oes unrhyw newid i'r ymagwedd bolisi.

Amserlen

Rhan gyntaf y Cytundeb Cyflenwi yw amlinellu amserlen neu raglen o'r camau allweddol o ran datblygu'r CDLI. Mae'r tabl a ganlyn yn amlinellu crynodeb o'r broses a dyddiadau ar gyfer pob un o'r camau.

Cam	Manylion	Pwrpas	Dyddiadau
Camau Terfynol			
Cam 1	Cytundeb Cyflenwi (Rheoliadau 5-10)	Paratoi a chytuno ar Gytundeb Cyflenwi yn cynnwys Amserlen a Chynllun Cynnwys y Gymuned sydd gyda'i gilydd yn amlinellu proses baratoi'r Cynllun.	Rhagfyr 2013
Cam 2	Adolygu a datblygu Sail Dystiolaeth (Rheoliad 14) [yn cynnwys Galwad am Safleoedd Arfaethedig]	Sefydlu sail dystiolaeth gadarn i lywio'r broses o baratoi'r Cynllun ac i ddarparu gwybodaeth sylfaenol y bydd modd cynnal arfarniad o'r Cynllun yn ei herbyn.	Yn barhaus
Cam 3	Cyfranogiad cyn adneuo (Rheoliad 14)	Datblygu ac asesu gweledigaeth ac amcanion y Cynllun ac ystyried nifer o ddewisiadau twf a gofodol strategol.	Ion 2014 -Tach 2014 (10 mis)
Cam 4	Ymgynghoriad Cyn Adneuo (Rheoliadau 15 ac 16)	Ymgynghori ar strategaeth ffafriedig y Cynllun, polisïau allweddol a chynigion datblygu strategol.	Rhag 2014 - Tach 2015 (11 mis)
Cam 5	Ymgynghoriad ar Adnau (Rheoliadau 17-19)	Ymgynghori ar y Cynllun ar Adnau a chaniatáu ar gyfer gwneud sylwadau ffurfiol.	Rhag 2015 - Gorff 2016 (7 mis)
Camau Dangosol			
Cam 6	Ymgynghori ar Sylwadau ar Ddyrannu Safleoedd (Rheoliadau 20 ac 21)	Caniatáu ar gyfer gwneud sylwadau mewn perthynas â sylwadau yn ymwneud â safleoedd penodol a gyflwynwyd ar y cam adneuo.	Awst 2016 - Tach 2016 (3 mis)
Cam 7 (Gorgyffwrdd â Cham 8)	Newidiadau Penodol (dewisol)	Ar ôl ystyried sylwadau a gyflwynwyd ar y cam adneuo, bydd y Cyngor, os bydd angen, yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar newidiadau penodol i'r Cynllun fel atodiad i'r Cynllun.	Rhag 2016 - Maw 2017 (3 mis)

Cam 8	Cyflwyno (Rheoliad 22)	Bydd y Cyngor yn cyflwyno'r CDLI a dogfennaeth ategol yn ffurfiol (gan gynnwys sylwadau) i Lywodraeth Cymru.	Rhag 2016
Cam 9	Archwilio (Rheoliad 23)	Bydd Arolygydd yn asesu'r Cynllun yn annibynnol o ran ei gadernid.	Ion 2017 - Tach 2017 (10 mis)
Cam10	Inspector's Report (Regulation 24)	Bydd Arolygydd yn cyflwyno ei Adroddiad i'r Cyngor a fydd yn rhwymol i'r Cyngor.	Rhag 2017
Cam 11	Adoption (Regulation 25)	Bydd y Cyngor yn penderfynu mabwysiadu'r CDLI.	Chwe 2018
Cam12	Monitoring and Review (Regulation 37)	Bydd y Cyngor yn adolygu'r Cynllun ac yn cyflwyno adroddiadau monitro blynyddol i Lywodraeth Cymru.	Yn barhaus (blynyddol)

Y camau terfynol yw'r rhai sy'n arwain at ac yn cynnwys yr ymgynghoriad ar adnau gan mai dyma'r camau sydd o dan reolaeth y Cyngor. Mae'r camau ar ôl hynny'n ddangosol yn unig gan eu bod yn dibynnu ar ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Fodd bynnag, o fewn tri mis i ddiwedd cyfnod yr ymgynghoriad ar adnau ffurfiol o chwe mis, dylai'r Cyngor ddiffinio'r amserlen ddangosol, gan ystyried trafodaethau gyda'r Arolygiaeth Gynllunio ynghylch argaeledd Arolygydd a'r amserlen debygol ar gyfer archwilio.

Mae fersiwn fanylach o'r amserlen gwyno ar gael yn adran Cynllun Cynnwys y Gymuned y Cytundeb Cyflenwi hwn.

Gwneud Penderfyniadau

Ar gamau allweddol o'r broses baratoi, ac yn enwedig lle y rhoddir ystyriaeth i sylwadau yn ymwneud â dogfennau ar ôl ymgynghori cyhoeddus, bydd angen sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Corff allweddol y Cyngor â chyfrifoldeb am ddatblygu'r CDLI fydd y Grŵp Strategaeth Gynllunio a fydd yn cynnwys grŵp o aelodau sy'n wleidyddol gytbwys. Nid corff penderfynu yw hwn ond bydd yn gweithredu fel fforwm trafod a Grŵp Llywio a bydd yn gwneud argymhellion i naill ai'r Cabinet a / neu'r Cyngor Llawn.

Adnoddau

Bydd Pennaeth yr Adran Gynllunio yn gyfrifol am gyflwyno'r CDLI er y caiff y Cynllun ei baratoi gan yr Is-adran Bolisi o dan reolaeth Rheolwr y Strategaeth Gynllunio. Bydd y tîm Polisi hefyd yn gallu galw ar wasanaethau amrywiaeth o swyddogion arbenigol o bob rhan o'r Cyngor. Mae'r adnoddau staff sydd ynghlwm wrth baratoi'r Cynllun yn cynnwys Rheolwr y Strategaeth Gynllunio, Arweinydd Tîm Dros Dro, Uwch Swyddog Cynllunio (x2.5), Swyddog Cynllunio (x2), Swyddog Cymorth Technegol (x1) a Chynorthwy-ydd Gweinyddol Dan Hyfforddiant (x0.5)

Mae'r Cyngor wedi neilltuo cyllideb ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun a bydd yn cyflogi ymgynghorwyr arbenigol i ymgymryd â thasgau arbenigol neu eu goruchwyllo yn ôl yr angen. Ystyrir comisiynu rhai astudiaethau ar y cyd â Chyngor Wrecsam er mwyn sicrhau gwerth am arian a chysondeb ymagwedd ar gyfer y ddau Gyngor. Bydd y Cyngor yn prynu system ymgynghori ar y we i gynorthwyo â phrosesau ymgynghori ac ymdrin â sylwadau, a chaiff defnydd y cyhoeddi ohoni ei hannog a'i hyrwyddo'n eang. Caiff ymgynghorwyr arbenigol eu penodi i oruchwyllo tasgau Asesu Strategol/Asesu Amgylcheddol Strategol a hefyd i

ymgymryd ag astudiaethau allweddol fel rhan o sail dystiolaeth gadarn i lywio strategaeth, polisïau a chynigion y Cynllun. O ystyried bod y CDLI yn un o'r cynlluniau statudol allweddol i'w paratoi gan y Cyngor, bydd adnoddau digonol ar gael i sicrhau y bydd y Cynllun yn parhau at y cam mabwysiadu yn unol â'r amserlen gytûn.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor wedi ceisio nodi'r hyn y mae'n ei ystyried yn amserlen realistig ar gyfer paratoi'r CDLI. Er hynny, yn ystod y cyfnod paratoi o bum mlynedd, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau'n codi a fydd â goblygiadau o ran cadw at yr amserlen. Felly efallai y bydd yn angenrheidiol ac, yn wir, yn anochel i geisio diwygio'r Cytundeb Cyflenwi ond caiff hyn ei wneud fel dewis olaf yn unig, ac ar ôl ymgynghori'n briodol â'r rhanddeiliaid allweddol a Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl a ganlyn yn amlinellu'r risgiau allweddol y gallai fod angen eu rheoli.

Risg	Tebygolrwydd/ Effaith	Effaith Bosibl	Mesurau Lliniaru
Materion y Cyngor			
Oedi o ran gwneud penderfyniadau gan y Cyngor.	Isel / Canolig	Llithriad y Rhaglen	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod darpariaeth gynnar yn cael ei gwneud yn nyddiadur y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd camau allweddol Ymgorffori hyblygrwydd yn yr amserlen ar gamau allweddol. Sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth Aelodau a Swyddogion o ran y CDLI drwy arferion gwaith effeithiol
Cyfieithu a safonau iaith Gymraeg	Isel / Canolig	Llithriad y rhaglen	Sefydlu'n glir polisi cyfieithu'r Cyngor a nodi adnoddau ychwanegol neu fesurau wrth gefn o ganlyniad i'r Safonau iaith Gymraeg newydd
Oedi o ran TG	Isel / Canolig	Llithriad y rhaglen	Sicrhau arferion cadarn ar gyfer rheoli data
Toriadau cyllideb	Isel / Canolig	<ul style="list-style-type: none"> Anallu i ariannu tasgau / camau allweddol Llithriad y rhaglen 	<ul style="list-style-type: none"> Mesurau rheoli cyllidebau i sicrhau ffrwd gyllid ar gyfer tasgau allweddol Trosglwyddo tasgau o ymgynghorwyr i aelodau staff mewnol Sicrhau ymrwymiad corfforaethol i'r CDLI fel blaenoriaeth uchel

Argaeledd staff / toriadau / canlyniadau gwerthuso swyddi	Canolig / Uchel	<ul style="list-style-type: none"> • Colli capasiti / arbenigedd / rheolwyr • Pwysau ar staff sydd ar ôl ac is-adrannau eraill e.e. priffyrdd, diogelu'r cyhoedd, yr amgylchedd, gweinyddiaeth ac ati • Oedi o ran recriwtio staff profiadol 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod arferion ar gyfer cadw staff yn cael eu rhoi ar waith ynghyd â sgiliau da o ran adeiladu timau • Sicrhau ymrwymiad corfforaethol i'r CDLI fel blaenoriaeth uchel • Recriwtio staff dros dro
Materion Cenedlaethol			
Gwrthwynebiadau sylweddol gan gyrff ymgynghori / rhanddeiliaid	Isel / Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Methiant i gytuno ar weledigaeth / strategaeth graidd/ dyraniadau ac ati • Lithriad y rhaglen 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod cydberthnasau effeithiol yn cael eu sefydlu â rhanddeiliaid • Adnoddau ychwanegol gan gynnwys hwyluso / cyfryngu proffesiynol i sicrhau bod modd cynyddu consensws
Etholiadau lleol Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017 – newidiadau i Arweinyddiaeth a/ neu bwyslais polisi.	Isel / Canolig	Lithriad y rhaglen a llwyth gwaith ychwanegol o ran ailedrych ar faterion / penderfyniadau	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynefino / hyfforddiant cynnar a chynhwysfawr i aelodau ar y CDLI • Rhaglen y Cynllun i ystyried dyddiadau etholiadau
Gofynion ychwanegol yn deillio o ddeddfwriaeth / arweiniad cenedlaethol newydd	Canolig / Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Angen gwneud gwaith ychwanegol a fyddai'n arwain at lithriad y rhaglen a'r angen i ailedrych ar agweddau allweddol ar y cynllun sy'n dod i'r amlwg. • Gallai'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) arwain at oblygiadau difrifol 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro deddfwriaeth ac arweiniad a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl • Cyfathrebu da â LIC a rhanddeiliaid allweddol i ragweld ymgynghoriadau sydd i ddod a'r goblygiadau posibl
Yr Arolygiaeth Gynllunio heb fod yn gallu bodloni dyddiad yr archwiliad	Isel / Canolig	Lithriad y rhaglen ac oedi o ran yr archwiliad	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu'n gynnar â'r Arolygiaeth i sicrhau bod anawsterau yn ymwneud â'r amserlen yn cael eu nodi a bod modd mynd i'r afael â nhw • Sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Arolygiaeth

Tystiolaeth newydd, polisiau, arweiniad a rhagamcaniadau diwygiedig. Er enghraifft, yn 2016, bydd rhagamcaniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflwyno.	Canolig / Uchel	<ul style="list-style-type: none"> • Llithriad y rhaglen • Angen ailedrych ar faterion 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y rhaglen i ystyried tystiolaeth newydd. • Rhagweld newidiadau y gallai fod eu hangen yn 2016.
Materion Lleol			
Mwy o sylwadau na'r disgwyl	Uchel / Uchel	<ul style="list-style-type: none"> • Llithriad y rhaglen • Diffyg consensws 	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu rhywfaint o hyblygrwydd yn y rhaglen ar ôl ymgynghori • Rheoli'r broses ymgynghori / rhoi sylwadau yn well ar sail profiad o'r CDU • Ystyried yr angen am adnoddau ychwanegol, yn enwedig adnoddau gweinyddol
Gwybodaeth / arbenigedd annigonol i gynnal AS/AAS	Canolig / Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Llithriad y rhaglen • Heb fod yn gallu bodloni prawf 'cadernid' 	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu disgwyliadau a galluoedd ymgynghoreion a nodi meysydd problemus yn gynnar • Ystyried yr angen am adnoddau ychwanegol
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Priodol	Canolig / Canolig	<ul style="list-style-type: none"> • Llithriad y rhaglen • Angen ailedrych ar faterion a dyraniadau 	<ul style="list-style-type: none"> • Dyraniadau wedi'u seilio ar sail dystiolaeth gadarn i osgoi'r angen am Asesiad Priodol yn cynnwys cyswllt agos â CCGC • Cynnwys digon o hyblygrwydd yn y rhaglen i allu cynnal Asesu Priodol • Angen ailedrych ar y cynllun o bosibl lle nad oes modd lliniaru'r effaith
Oedi o ran argraffu a chynhyrchu	Isel / Isel	Llithriad y rhaglen	Ystyried adnoddau ychwanegol a mesurau wrth gefn

Gwybodaeth arwyddocaol / hwyr	Uchel	Nid oedd modd cyflwyno'r cynllun i'w archwilio	Sicrhau cydberthnasau gwaith da â rhanddeiliaid allweddol er mwyn rhagweld ac osgoi digwyddiadau o'r fath
Cyflwyno cynlluniau a strategaethau eraill	Isel / Canolig	Llithriad y rhaglen	Ymgysylltu cynnar i sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cynlluniau a rhaglenni o'r fath yn cyd-fynd â'r CDLI
Y Cynllun yn methu â bodloni'r prawf 'cadernid'	Isel / Uchel	Nid oedd modd mabwysiadu'r cynllun heb waith pellach	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob agwedd ar y Cynllun a'r broses yn 'gadarn' ac wedi'i seilio ar sail dystiolaeth gadarn a chyfraniad gan y gymuned a rhanddeiliaid a archwiliwyd yn dda Ystyried yr angen am adnoddau ychwanegol
Her Gyfreithiol	Isel / Uchel	<ul style="list-style-type: none"> Llwyth gwaith ychwanegol Llithriad y rhaglen Diddymu'r rhaglen 	Sicrhau bod cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoleiddio a bod trywydd archwilio clir o'r holl benderfyniadau

Cynllun Cynnwys y Gymuned

Ail ran y Cytundeb Cyflenwi yw'r Cynllun Cynnwys y Gymuned sy'n amlinellu sut bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol ac yn ymgynghori â nhw ar gamau allweddol o baratoi'r Cynllun. Mae'n disgrifio'r ffyrdd y gall y gymuned ddylanwadu ar y Cynllun ar gamau gwahanol o'r broses baratoi. Dylai sicrhau bod pawb yn deall y broses yn glir a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan ei gilydd wrth i'r Cynllun ddatblygu er mwyn lleihau gwrthdaro posibl yn ystod camau diweddarach. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori yng Nghynlluniau Datblygu Lleol Cymru y dylai Cynllun Cynnwys y Gymuned amlinellu'r canlynol:

- i. egwyddorion, strategaeth a phroses yr awdurdod ar gyfer cynnwys y gymuned gyfan, gan gynnwys busnesau, wrth baratoi, adolygu ac addasu'r CDLI;
- ii. sut bydd yr awdurdod yn cynnwys y gymuned ym mhob cam o baratoi'r CDLI;
- iii. cynnwys yr arfarniad cynaliadwyedd, monitro, adolygu ac addasu, a chanllawiau cynllunio atodol (CCA) cysylltiedig;
- iv. amlinelliad o sut bydd cyfraniadau'n ychwanegu at benderfyniadau yn ymwneud â pharatoi'r CDLI neu ddogfennau cysylltiedig ac unrhyw addasiadau iddynt;
- v. y sefydliadau yr ymgynghorir â nhw'n ffurfiol a phobl neu grwpiau y dylid eu cynnwys, gydag amlinelliad o'r technegau y mae eu hangen i wneud hynny'n effeithiol;
- vi. yr adnoddau a neilltuir i'r broses; a
- vii. chysylltiadau perthnasol â mentrau eraill ar gyfer cynnwys y gymuned, yn enwedig y strategaeth/strategaethau cymunedol.

Mae prif egwyddorion y Cyngor ar gyfer cynnwys y gymuned ym mhroses y CDLI fel a ganlyn:

- Cymryd pob cam rhesymol i gynnwys pobl cyn gynted â phosibl, mewn pryd i lywio'r broses o baratoi'r Cynllun
- Sicrhau bod ymgysylltu ac ymgynghori'n digwydd cyn gwneud penderfyniadau
- Sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd agored a thryloyw

- Datblygu proses ymgysylltu ac ymgynghori hyblyg a hygyrch
- Rhoi'r cyfle i gynifer o bobl â phosibl gymryd rhan
- Tynnu ar wybodaeth leol er mwyn gwella penderfyniadau
- Ceisio cael consenws o ran penderfyniadau
- Ceisio parhau i gynnwys pobl drwy gydol y broses

Sut a Phryd y caiff y Gymuned ei Chynnwys?

Wrth baratoi'r Cynllun, bydd nifer o gyfleoedd i gynnwys y gymuned, fel y'u hamlinellir yn yr Amserlen Gryno. Yn ystod y camau cynharaf, bydd y pwyslais ar gyfranogiad neu ymgysylltu â'r gymuned mewn ffordd anffurfiol er mwyn ceisio cael consenws ar faterion allweddol yn ymwneud â gweithio tuag at gynllun ymgynghori cyn adneuo h.y. penderfynu ar weledigaeth y Cynllun, ei nodau a'i amcanion, a datblygu strategaeth ffafriedig yn cynnwys lefel a dosbarthiad gofodol datblygiad, a gwerthuso dewisiadau gwahanol. Wedi i'r cynllun ymgynghori cyn adneuo gael ei ddrafftio, bydd proses baratoi'r Cynllun yn dod yn fwy ffurfiol drwy ymgynghori ar ddogfennau allweddol ar gamau penodol. Er mwyn esbonio'n fanylach, mae'r amserlen gryno wedi'i hailgyflwyno mewn tabl mwy manwl a strwythuredig (ar ddiwedd yr adran hon o'r Cytundeb Cyflenwi) lle y caiff pob tasg ei rhannu'n is-dasgau a'i hesbonio o ran:

- beth yw pwrpas y cam / y dasg?
- pryd y cânt eu cynnwys?
- pwy gaiff eu cynnwys?
- sut y cânt eu cynnwys?
- beth yw'r canlyniad neu'r mecanwaith adrodd?
- pa adnoddau y mae eu hangen i gwblhau'r cam / y dasg?

Dulliau Ymgysylltu ac Ymgynghori Presennol ac Arfaethedig

Mae eisoes nifer o ffyrdd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn ymgynghori â nhw. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her o baratoi'r Cynllun yn unol â'r amserlen, mae'n bwysig defnyddio mecanweithiau sefydledig yn y ffordd fwyaf effeithiol yn ogystal â'r dulliau newydd hynny a ddyfeisir yn benodol ar gyfer y CDLI. Mae'r mecanweithiau presennol yn Sir y Fflint yn cynnwys:

- Eich Cymuned Chi, Eich Cyngor Chi – Mae'r Cyngor yn cynhyrchu papur newydd rhad ac am ddim dair gwaith y flwyddyn sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr am wasanaethau a phrosiectau i drigolion lleol.
- Strategaeth Gymunedol – Fel rhan o fenter gan Lywodraeth Cymru, bu Sir y Fflint yn un o chwe Bwrdd Strategaeth Leol (BSL) yng Nghymru a sefydlwyd i ddatblygu a gwella'r broses o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r BSL yn cynnwys Grŵp Gweithredol a Grŵp Strategaeth ac un o'i amodau gorchwyl allweddol yw cyflwyno ac adolygu Strategaeth Gymunedol ar gyfer Sir y Fflint sy'n ystyrlon ac yn addas at ei diben.
- Gwefan – Mae'r Cyngor yn datblygu ei wefan yn barhaus a chaiff ei defnyddio fwyfwy fel rhan o

ystod eang o brosesau ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau.

- Cymunedau yn Gyntaf.
- Partneriaethau a fforymau eraill.
- Grwpiau Defnyddwyr Cynllunio.

Wrth edrych ar y broses baratoi, bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori sy'n bodoli eisoes, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gymunedol, o ystyried bod yn rhaid i'r CDLI gyd-fynd yn agos â'r Strategaeth Gymunedol. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ceisio

defnyddio amrywiaeth o ffyrdd o ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned yn dibynnu ar y cam penodol a'r dasg dan sylw. Bydd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Arddangosfeydd
- Seminarau / cynadleddau
- Partneriaethau
- Gweithdai
- Gwefan
- Hysbysiadau safle
- Datganiadau i'r wasg
- Hysbysiadau cyhoeddus ffurfiol
- System ymgynghori ar-lein (a system cefn swyddfa ategol)
- Cylchlythyr CDLI
- Papurau newydd / cylchlythyrau cymunedol
- Hwylusydd annibynnol

Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod pobl yn y Sir nad ydynt wedi bod ynghlwm wrth baratoi cynlluniau datblygu, yn draddodiadol, p'un a yw hynny oherwydd diffyg awydd neu ddiffyg cyfle. Adwaenir y rhain fel 'grwpiau anodd eu cyrraedd' a byddant yn cynnwys busnesau, pobl ifanc, yr henoed, pobl o leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr, pobl anabl a'r rhai sy'n dioddef o amddifadedd cymdeithasol a/ neu economaidd. Er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus ac mewn ffordd adeiladol â'r grwpiau hyn, bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio rhwydweithiau cyfarwydd sy'n bodoli eisoes, er enghraifft; Siambrau Masnach, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, a grwpiau megis Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint. Yn yr achosion hynny lle y ceir diffygion o ran dulliau a rhwydweithiau ymgysylltu ac ymgynghori sy'n bodoli eisoes, bydd y Cyngor yn ceisio dyfeisio atebion a ffyrdd newydd o gyrraedd y grwpiau hyn ac o geisio cael eu cyfraniad at y broses.

Cyrff ymgynghori

Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu ac Atodiad A Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru yn nodi tri chategori gwahanol o ymgynghoreion. Y categori cyntaf yw cyrff ymgynghori 'Penodol' sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru [o 01/04/13 bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disodli Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru), yr Ysgrifennydd Gwladol, unrhyw awdurdod lleol neu gyngor tref / cymuned sy'n cyffinio â ffin y Sir, y bwrdd iechyd lleol ac amrywiaeth o ddarparwyr cyfleustodau a gwasanaethau cyhoeddus yn ymwneud â thrydan, nwy, dŵr a charthffosiaeth, a thelathrebu.

Yr ail gategori yw cyrff ymgynghori 'Cyffredinol' sy'n cynnwys cyrff gwirfoddol sy'n cynrychioli buddiannau: gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedligrwydd; gwahanol grwpiau crefyddol; pobl anabl; pobl sy'n rhedeg busnes; a chyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru, y dylai pob un ohonynt fod yn berthnasol i'r ardal.

Y trydydd categori yw cyrff ymgynghori 'Eraill' sydd wedi'u rhestru yn ôl enw yn Atodiad A CDLlau Cymru. Dylai awdurdod cynllunio lleol ystyried yr angen i ymgynghori â'r asiantaethau a'r sefydliadau hyn, lle y bo'n briodol.

Wrth lunio ei restrau ymgynghori, mae'r Cyngor wedi cynnwys yr ymgylgoreion statudol ac argymelledig fel y'u hamlinellir uchod. Mae wedi nodi cyrff a sefydliadau ychwanegol hefyd sy'n berthynol i'r Cyngor, gan arwain at restr gynhwysfawr o ymgylgoreion. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd y rhestr hon yn tyfu dros amser wrth i'r Cynllun ddatblygu ac wrth i ymgylgoreion newydd ymddangos. Amlinellir y rhestr o ymgylgoreion yn Atodiad 3.

Rolau a Disgwyliadau

Bydd y Cynllun yn datblygu'n gyflymach ac yn fwy effeithiol os oes gan bob parti ddealltwriaeth glir nid yn unig o'r amserlen a'r broses ond hefyd rolau pob parti a disgwyliadau'r parti hwnnw.

i. Y Cyngor

Bydd swyddogion y Cyngor yn gyfrifol am ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol, dadansoddi a rhoi cyngor technegol ar baratoï'r Cynllun a byddant yn gyfrifol am bob agwedd ar ymgysylltu ac ymgynghori. Lle bo angen, bydd Swyddogion yn ceisio cyngor annibynnol arbenigol ar faterion penodol gan ymgynghorwyr â chymwysterau a phrofiad addas. Bydd Swyddogion yn rhoi adroddiadau i Aelodau etholedig ac yn gwneud argymhellion ar gyfer penderfyniadau ac yna bydd Cynghorwyr yn gwneud penderfyniadau ar y Cynllun er budd y cyhoedd.

Bydd y Cyngor yn...

- Rhoi cyfarwyddiadau clir ar bob cam ymgysylltu neu ymgynghori
- Rhoi digon o rybudd ymlaen llaw am bob cam ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn caniatáu ar gyfer gwneud paratodau digonol
- Ysgrifennu at randdeiliaid naill ai drwy lythyr neu neges e-bost, gan ddibynnu ar beth sy'n well ganddynt
- Ymateb i ohebiaeth ysgrifenedig o fewn deng niwrnod gwaith (ac os nad yw'n bosibl ymateb yn llawn, anfon ymateb cychwynnol)
- Sicrhau bod dogfennaeth allweddol ar gael ar ei wefan, yn Neuadd y Sir, Swyddfeydd y Fflint a swyddfeydd Treffynnon yn Cysylltu ac mewn llyfrgelloedd lleol
- Ceisio defnyddio iaith glir cymaint â phosibl (gan gydnabod bod yn rhaid i rai camau megis hysbysiadau cyhoeddus ddefnyddio geiriad penodol a bennwyd ymlaen llaw ac a allai fod yn dechnegol)
- Ystyried sylwadau'n llawn a rhoi ymatebion i'r materion sy'n codi
- Gwneud penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar adroddiadau clir a rhesymegol ac esbonio'r penderfyniadau hynny
- Sicrhau bod nodiadau a chofnodion cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor lle bo'n briodol (bydd nodiadau'r Grŵp Strategaeth Gynllunio yn cael eu cyhoeddi dim ond pan fyddant yn gysylltiedig ag argymhellion i'r Cabinet neu'r Cyngor Llawn)

ii **Unigolion, sefydliadau a chymunedau**

Bydd ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn fwy effeithiol ac effeithlon os bydd cyfranogwyr yn dilyn y canllawiau a ganlyn:

- ymateb i geisiadau gan y Cyngor o fewn 21 diwrnod neu o fewn unrhyw gyfnod ymgynghori penodol megis cyfnod ymgynghori statudol o chwe wythnos
- cyfrannu mewn ffordd ddefnyddiol ac adeiladol tuag at sicrhau consensws
- dylai sylwadau gynnwys manylion cyswllt llawn (enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost [os yw'n briodol])
- rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newidiadau i fanylion cyswllt

- dylai sylwadau esbonio'n llawn y rhesymau dros y sylw ac, os yw'n briodol, pa newid/newidiadau maent am eu gweld i'r Cynllun
- dylai sylwadau gael eu cyflwyno mewn fformat sy'n ddarllenadwy ac yn berthnasol i'r mater dan sylw
- dylai sylwadau godi materion sy'n gysylltiedig â chynllunio a defnyddio tir yn unig
- deall y bydd sylwadau ar gael i'r cyhoedd eu gweld fel bod modd eu rhannu gyda phartïon eraill sydd â buddiant
- ymrwymo i'r broses o geisio sicrhau consensws
- nodi unrhyw fylchau o ran y sail dystiolaeth a chynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth honno os yw'n bosibl (mae hyn yn arbennig o bwysig i'r AS/AAS)
- lle bo'n briodol, ceisio amrywio unrhyw gylich cyfarfodydd er mwyn caniatáu amseroedd ymateb rhesymol
- nodi safleoedd i'w hystyried mor gynnar â phosibl yn y broses
- gwrandao a chymryd rhan mewn trafodaeth gyda meddwl agored
- deall bod Adroddiad yr Arolygydd yn rhwymol ac mai dim ond drwy'r llysoedd y mae modd ei herio.

Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol

Caiff Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol ei sefydlu i gynorthwyo â'r broses o baratoi'r Cynllun. Bydd gan aelodau'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol rôl bwysig i'w chwarae yng nghamau allweddol paratoi'r Cynllun, yn benodol o ran llunio'r sail dystiolaeth, ac ystyried ac asesu'r weledigaeth, yr amcanion a'r dewisiadau. Bydd y Fforwm yn gweithredu ar ffurf cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd, drwy gydol camau allweddol y broses hyd at y Cam Adneuo a bydd yn gyfrwng i drafod materion a dewisiadau allweddol. Ar brydiau, gallai fod angen ffurfio is-grwpiau i drafod materion penodol. Caiff y Grŵp Strategaeth Gynllunio ei hysbysu o drafodaethau'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.

Caiff y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol ei seilio i raddau helaeth ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol presennol a bydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o bartneriaethau allweddol, ynghyd â chynrychiolwyr dethol o sefydliadau megis Cynghorau Cymuned a Thref, cyrff ymgynghori dynodedig ar gyfer Asesu Strategol a Swyddogion y Cyngor lle bo ganddynt fuddiant uniongyrchol yn y CDLI. Mae'r Fforwm yn cynnwys ymgynghoreion a sefydliadau statudol allweddol sy'n cynrychioli disgyblaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ac sy'n gallu chwarae rôl fwy strategol wrth drafod materion allweddol. Mae angen i'r Fforwm feddu ar sbectwm eang o aelodau a bod yn ddigon mawr i ganiatáu trafodaeth a chynnydd adeiladol gan osgoi sefyllfaoedd lle mae'r grŵp yn rhy fawr i fod yn gynhyrchiol neu'n rhy fach i sicrhau consensws digonol o ran symud y Cynllun yn ei flaen. Mae rhestr ddrafft o wahoddedigion ar gael yn Atodiad 4 ond efallai y bydd hyn yn newid wrth i'r cynllun symud yn ei flaen.

Yn ogystal â disgwyliadau cyffredinol rhanddeiliaid, bydd disgwyl i Aelodau'r Fforwm ymrwymo i'r broses drwy fod yn bresennol yn rheolaidd er mwyn caniatáu trafodaeth lawn a gwybodus drwy gydol y broses. Bydd aelodau'n cynrychioli buddiannau eu sefydliad, a byddai'n fuddiol pe byddai gwybodaeth am y CDLI yn cael ei dosbarthu ym mhob rhan o'u strwythurau presennol er mwyn hwyluso ymgynghori estynedig ar y Cynllun.

Grŵp Strategaeth Gynllunio

Fel y'i disgrifiwyd yn yr amserlen, y brif ffordd y bydd y Cyngor yn ymdrin â'r CDLI yw drwy'r Grŵp Strategaeth Gynllunio. Grŵp o aelodau etholedig â chydbwysedd gwleidyddol yw hwn a fydd yn ystyried adroddiadau gan Swyddogion ac yn rhoi sylw i safbwyntiau'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a sylwadau ar gamau allweddol. Mewn rhai achosion lle y ceir safbwyntiau gwrthwynebus, bydd angen i'r Grŵp ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a chanfod ffordd ddoeth ymlaen o ran cynnwys y Cynllun ac ystyried sylwadau. Bydd y Grŵp yn gwneud argymhellion i'r Cabinet / y Cyngor Llawn lle y bydd modd

i drafodaeth wleidyddol lawn gael ei chynnal. Mae manylion am y Grŵp Strategaeth Gynllunio wedi'u hamlinellu yn Atodiad 4.

Bydd disgwyl i aelodau'r Grŵp fynd i'r cyfarfodydd a gweithio mewn ffordd strategol lle mai'r cyfrifoldeb pennaf fydd gweithredu er mwyn cyflawni cyfrifoldeb y Cyngor i lunio'r Cynllun a'i symud yn ei flaen.

Gweithgor Technegol AS/AAS

Fel y'i hesboniwyd yn yr adran ar yr Amserlen, elfen bwysig o'r Cynllun yw'r broses Asesu Strategol (AS) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Bydd y dasg hon yn mynd rhagddi law yn llaw â phroses baratoi'r Cynllun ond caiff ei goruchwyllo gan Weithgor Technegol a fydd yn gwneud argymhellion i'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol a'r Grŵp Strategaeth Gynllunio. Bydd gan y Grŵp gyfraniad i'w wneud hefyd at Asesu Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwydddeb Ewropeaidd. Amlinellir aelodaeth y Gweithgor Technegol yn Atodiad 4.

Creu consensws

Drwy fabwysiadu dulliau ymgynghori ac ymgysylltu gwell fel y'u hamlinellir yn y Cytundeb Cyflenwi hwn, dylai proses baratoi'r Cynllun fod yn llai tebygol o weld gwrthdaro o ran gwneud penderfyniadau. Amcan y Cytundeb Cyflenwi yw ceisio consensws ar bob cam o'r broses o lunio'r Cynllun. Yn ddi-os, bydd achosion lle na ellir cael consensws ac mae'n bwysig bod sail dystiolaeth glir a chyfiawnhad dros y penderfyniad a wneir y gall pob un o'r rhanddeiliaid ei werthfawrogi. Er efallai na fydd rhai rhanddeiliaid yn cytuno â'r penderfyniad, dylai'r broses fod wedi'i chynnal mewn ffordd agored a thryloyw fel y gall y rhanddeiliaid hynny o leiaf werthfawrogi'r sail dros wneud y penderfyniad. Mae'n bwysig yn y sefyllfaoedd hyn bod y Cynllun yn gwneud cynnydd a bydd hyn yn anochel yn cynnwys yr angen i wneud penderfyniadau anodd.

Argaeledd dogfennau ac adborth

Caiff pob dogfen ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor ar dudalennau penodol y CDLI. Fel arfer, caiff dogfennau eu dosbarthu i gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol mewn fformat electronig. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, caiff dogfennau eu hanfon ar ffurf copi caled os bydd angen. Bydd modd gweld dogfennau allweddol hefyd yn Swyddfeydd y Cyngor yn y Fflint, Derbynfaf'r Adran Gynllunio yn Neuadd y Sir, swyddfa Treffynnon yn Cysylltu a llyfrgelloedd y Sir a restrir yn atodiad 4).

Caiff gwefan y Cyngor ei defnyddio i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf a newyddion am hynt y CDLI. Bydd y Cyngor yn prynu pecyn meddalwedd ymgynghori ar-lein a fydd yn caniatáu i ddogfennau ymgynghori ac ymgysylltu fod ar gael yn electronig mewn fformat sy'n galluogi pobl i roi sylwadau arnynt

a'u cyflwyno'n uniongyrchol.

Bydd y Cyngor yn rhoi adborth ar yr holl sylwadau yn dilyn pob ymarfer ymgynghori.

- Caiff sylwadau eu cydnabod ar adeg eu derbyn a'u cofnodi ar gronfa ddata
- Os yw sylw'n aneglur neu os oes gwybodaeth ar goll, caiff ei ddychwelyd at yr anfonwr er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion cyn ei gofnodi ar y gronfa ddata
- Bydd sylwadau ymgynghori ar gael yn electronig ar y wefan a bydd copïau caled ar gael yn Nerbynfaf'r Adran Gynllunio, Neuadd y Sir
- Bydd crynodebau o sylwadau a chanlyniadau, ac unrhyw adroddiad ategol, ar ôl cael eu hystyried gan y Grŵp Strategaeth Gynllunio / y Cabinet / y Cyngor, ar gael yn electronig ar y wefan a bydd copïau caled ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd
- Caiff adborth cyffredinol ei roi i bobl sy'n cyflwyno sylwadau ar bob cam drwy lythyr neu neges e-bost (cyfrifoldeb y bobl hynny fydd darllen y dogfennau cyhoeddedig perthnasol er mwyn cael gwybod am ganlyniad eu sylw penodol)
- Dim ond i'r cydlynnydd y caiff adborth yn ymwneud â deisebau ei roi drwy lythyr a neges e-bost ac nid i bob llofnodwr
- Gellir darparu gwybodaeth mewn print bras ar gais
- Bydd diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth am y camau nesaf ar gael ar y wefan.

Deisebau

Bydd deisebau a llythyrau a argraffwyd ymlaen llaw a gyflwynir mewn bwndeli yn cael eu derbyn dim ond os oes ganddynt gydlynnydd penodol. Bydd y Cyngor yn eu cofrestru fel un sylw gyda nodyn atodol yn esbonio eu bod wedi'u gwneud gan x o unigolion. Bydd y Cyngor yn eu cofrestru fel un sylw gyda nodyn atodol yn esbonio eu bod wedi'u gwneud gan x o unigolion. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor leihau'r amser a'r costau prosesu a gweinyddu sy'n gysylltiedig â deisebau. Felly mae'n rhaid i gydlynwyr fod yn barod i drosglwyddo dogfennaeth a gohebiaeth berthnasol i'r unigolion hynny ar y deisebau. Egwyddor allweddol o ran paratoi'r Cynllun yw mai ansawdd y sylwadau a roddir sy'n bwysig, yn hytrach na sawl gwaith y cânt eu rhoi. Dim ond unwaith y mae angen gwneud pwynt cynllunio da, yn hytrach na'i ailadrodd yn ddiangen.

Y Gymraeg

Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn 2006 sy'n amlinellu'r egwyddor y bydd yn ymgymryd â busnes cyhoeddus gan drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cyngor o'r farn bod parchu a bodloni anghenion a disgwyliadau ieithyddol yn ganolog i ofal cwsmeriaid da ac effeithiol. Caiff gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg a Saesneg gan ddibynnu ar beth sydd orau gan y cwsmer.

Bydd y Cyngor yn sicrhau y caiff dogfennau allweddol a phrosesau ymgysylltu / ymgynghori eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn benodol, bydd llythyrau cyffredinol ar gamau allweddol yn gwbl ddwyieithog. Bydd system ymgynghori ar-lein y Cyngor ar gael gyda rhyngwynebau Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, fel rhan o'r sail dystiolaeth / dogfennau, bydd dogfennau technegol yn cynnwys atodiadau technegol lle y byddai'r costau a'r oedi sy'n gysylltiedig â chyfieithu yn waharddol. Bydd cyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill yn cynhyrchu dogfennau hefyd yn Saesneg yn unig ac ni fwriedir cyfieithu'r rhain. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw sylwadau a gyflwynir yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae adroddiadau i'r Adran Weithredol a'r Cyngor, a chofnodion dilynol, ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd yn unol â pholisi'r Cyngor.

Mewn digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod siaradwr Cymraeg

ar gael os yw'n bosibl. Lle nad yw hynny'n bosibl, caiff trefniadau amgen lle y bydd siaradwr Cymraeg ar gael eu hystyried. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd drwy drefniant ymlaen llaw.

Caiff ceisiadau am ddogfennaeth mewn ieithoedd eraill neu mewn fformatau print bras eu hystyried fesul achos.

Amserlen Fanwl / Cynllun Cynnwys y Gymuned

Atgynhychwyd yr amserlen gryno a gyflwynwyd mewn adran gynharach o'r ddogfen hon yn rhan o'r Cynllun Cynnwys y Gymuned ac mae'n amlinellu'n fanylach y tasgau a'r cyfleoedd yn unigol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori fel rhan o bob cam allweddol:

Cam 1 Cytundeb Cyflenwi (Rheoliadau 5-10)

Wrth ymgynghori â rhanddeiliaid, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Cytundeb Cyflenwi (CC) yn amlinellu amserlen ar gyfer paratoi'r CDLI a datganiad yn ymwneud â sut bydd yn cynnwys y gymuned leol o wrth baratoi'r Cynllun. Mae'n rhaid i'r Cytundeb Cyflenwi gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gymeradwyo ganddi.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Codi ymwybyddiaeth gychwynnol	Cyflwyno'r CDLI i rhanddeiliaid allweddol er mwyn ymgorffori sylwadau yn y CC drafft		Tîm y CDLI Aelodau / Cynghorau Tref a Chymuned Llywodraeth Cymru	Seminarau Cyfarfodydd		Tîm Polisi Cymorth Gweinyddol Aelodau
Paratoi Cytundeb Cyflenwi drafft	Sicrhau bod dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau yn ymwneud ag ymgysylltu ac ymgynghori ac y caiff amserlen realistig ei datblygu	Ionawr 2013 – Rhagfyr 2013	Tîm y CDLI Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Grŵp Strategaeth Gynllunio (GSG) Llywodraeth Cymru		Y GSG i drafod y CC (ymgorffori sylwadau'r FfRhA) a'r Cabinet i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghori	Argraffu a Phostio Hysbysiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus Cyngor ymgynghoriaethau
Cyhoeddi'r CC drafft ar gyfer ymgynghori	Galluogi pob rhanddeiliad a pharti â buddiant i roi sylwadau ar y CC	[ymgyngoriaid 8 wythnos] Awst / Medi 2013	Tîm y CDLI Grŵp Strategaeth Gynllunio Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Llywodraeth Cymru Yr Arolygiaeth Gynllunio Cyrff ymgynghori'r AC/ grŵp technegol Y cyhoedd	Gwefan Postio Uniongyrchol Lleoliadau Adneuo Datganiadau i'r Wasg Ffurflen sylwadau	Cydnabod derbyn sylwadau drwy'r post / neges e-bost	Pecyn TGCh ymgynghori Costau cyfieithu Costau ystafelloedd cyfarfod
Ystyried adborth a sylwadau	Caniatáu ar gyfer mynd i'r afael â phob mater a diwygio'r CC os bydd angen	Hydref / Tachwedd 2013	Tîm y CDLI Grŵp Strategaeth Gynllunio		Sylwadau ac ymatebion Swyddogion i gael eu trafod gan y GSG a'r CC terfynol i gael ei gymeradwyo gan y	

					Cabinet. Adroddiad i fod ar gael ar y wefan. Adrodd yn ôl i'r rhai a gyflwynodd sylwadau. Rhoi adborth i'r FfRhA.
Cyflwyno CC i Lywodraeth Cymru	Ceisio cael cymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y CC	Llywodraeth Cymru i ymateb o fewn pedair wythnos o'i dderbyn	Llywodraeth Cymru	Postio Uniongyrchol Gwefan	Hysbysiad Llywodraeth Cymru i'r Cyngor i fod ar gael ar y wefan
Cyhoeddi CC cymeradwy yn dilyn cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru (gyda diwygiadau neu hebddynt)	Rhoi gwybod i randdeiliaid am gynnwys ac argaeledd y CC cymeradwy	Rhagfyr (neu cyn gynted â phosibl ar ôl cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru)	Tîm y CDLI Grŵp Strategaeth Gynllunio Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill	Rheoliad 10(1)b Gwefan Postio Uniongyrchol Rheoliad 10(1)a Lleoliadau Adneuo Datganiadau i'r wasg	CC cymeradwy i fod ar gael ar y wefan ac mewn lleoliadau adneuo
Monitro ac adolygu'r CC	Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ddatblygu yn unol â'r CC ac amlygu'r angen i'w ailgyflwyno i Lywodraeth Cymru	Parhaus/ ar bob cam yn y broses	Tîm y CDLI Grŵp Strategaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru Yr Arolygiaeth Gynllunio	Gwefan	Dogfennau perthnasol i fod ar gael ar y wefan

Cam 2 – Adolygu a Datblygu Sail Dystiolaeth ar gyfer y CDLI a'r AAS/AC/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) (Rheoliad 14)

Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi'r Cynllun yng ngoleuni gwybodaeth gadarn am y nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Sir a'r is-ranbarth ehangach. Caiff hyn ei gyflawni drwy lunio sail dystiolaeth gadarn o ddogfennau a data a'i diweddarau'n gyson. Caiff data a thystiolaeth newydd eu casglu lle bod angen drwy benodi ymgynghorwyr arbenigol. Bydd y sail dystiolaeth hefyd yn cynnig y sefyllfa syflaenol ar gyfer arfarniad y Cynllun.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Datblygu ac adolygu'r sail dystiolaeth	Deall a datblygu sail dystiolaeth gadarn sy'n mynd i'r afael ag agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, a darparu'r cyd-destun ar gyfer CDLI cadarn. Sicrhau bod y sail dystiolaeth yn cael ei diweddarau'n gyson ar bob cam ym mhroses y Cynllun	Rhagfyr 2012 – parhaus	Tîm y CDLI Grŵp Strategaeth Gynllunio Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill	Gwefan Postio uniongyrchol Cyfarfodydd / gweithdai	Sicrhau bod y sail dystiolaeth ar gael ar y wefan	Tîm y CDLI Swyddogion y Cyngor Cymorth gweinyddol Ymgynghorwyr penodedig Argraffu a Phostio Hysbysiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus
Safleoedd Arfaethedig	Caniatáu ar gyfer hyrwyddo safleoedd gan bartïon â buddiant a hwyluso proses arfarnu'r Cyngor ar gyfer safleoedd yn erbyn meini prawf dethol a bennwyd ymlaen llaw	Ionawr 2014 – Ebrill 2014	Tîm y CDLI Swyddogion y Cyngor Grŵp Strategaeth Gynllunio Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Datblygwyr / perchenogion tir Ymgynghorwyr penodedig yr AC Cyrff ymgynghori'r AC / grŵp technegol Y cyhoedd	Gwefan Datganiad/hysbysiad i'r wasg Postio uniongyrchol Lleoliadau adneuo Ffurflenni safonol	Methodoleg a meini prawf asesu safleoedd (gan gynnwys AC/AAS/ARhC) i fod yn destun ymgynghori penodol â rhanddeiliaid allweddol Cymeradwyo'r fethodoleg a'r meini prawf asesu a dethol gan y FfRHA / GSG / Cabinet Adrodd am arfarniadau safleoedd i'r FfRHA / GSG / Cabinet	Costau cyfieithu

					Cofrestr Safleoedd i fod ar gael ar y wefan ac mewn lleoliadau adneuo
Asesu Amgylcheddol Strategol / Arfarnu Cynaliadwyedd ac Asesu Rheoliadu Cynefinodd	Paratoi methodoleg yr AC/ AAS/ARhC a datblygu'r wybodaeth sylfaenol am yr amgylchedd / cynaliadwyedd y gellir arfarnu'r Cynllun yn ei herbyn: <ul style="list-style-type: none"> • Sgrinio • Adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd • Casglu data sylfaenol • Nodi materion a phroblemau yn ymwneud â chynaliadwyedd • Datblygu fframwaith Arfarnu Strategol • Paratoi Adroddiad Cwmpasu 	(gorgyffwrdd â cham 1) Parhaus	Tîm y CDLI Swyddogion y Cyngor Grŵp Strategaeth Gynllunio Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Ymgynghoreion Penodedig Arfarnu Strategol Cyrff ymgynghori Arfarnu Cynaliadwyedd / grŵp technegol	Cyfarfodydd / gweithdai Postio Uniongyrchol	Adroddiadau i'r FfRhA / GSG Gosod gwybodaeth sylfaenol, methodoleg ac adroddiadau ar y wefan
Ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/ Arfarniad Cynaliadwyedd	Ymgynghori ar gwmpas yr Arfarniad Strategol i sicrhau bod consensws ymhlith rhanddeiliaid allweddol o ran yr AC/ AAS/ARhC	Ymgynghoriad chwe wythnos	Tîm y CDLI Swyddogion y Cyngor Grŵp Strategaeth Gynllunio Panel Rhanddeiliaid Allweddol Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Cyrff ymgynghori Arfarnu Cynaliadwyedd/ grŵp technegol Ymgynghorwyr Penodedig Arfarnu Cynaliadwyedd Y cyhoedd	Gwefan Postio Uniongyrchol Lleoliadau Adneuo Datganiadau i'r Wasg	Adrodd canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r FfRhA / GSG Adrodd yn ôl i'r rhai a gyflwynodd sylwadau Sicrhau bod yr adroddiad cwmpasu ar gael ar y wefan ac mewn lleoliadau adneuo

Cam 3 – Cyfranogi Cyn Adneuo (Rheoliad 14)

Yn ystod y cam hwn, bydd y Cyngor yn defnyddio'r sail dystiolaeth i lywio gweledigaeth y Sir ac amcanion y Cynllun. Caiff papurau yn ymwneud â materion eu paratoi ar amrywiaeth o bynciau a bydd y Cyngor yn ystyried nifer o ddewisiadau twf a gofodol o ran datblygu cyn nodi strategaeth ffafriedig ar gyfer y Cynllun.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a mecanwaith adrodd	Adnoddau
Gweledigaeth / amcanion	Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu gweledigaeth glir ar gyfer ardal y Cynllun a phennu amcanion ar gyfer y CDLI Profi amcanion yn erbyn y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd	Ionawr 2014 – Ebrill 2014	Tîm y CDLI Swyddogion y Cyngor Grŵp Strategaeth Gynllunio Aelodau'r Cyngor Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Y cyhoedd Ymgynghorwyr Penodedig Arfarnu Cynaliadwyedd Cyrff ymgynghori Arfarnu Cynaliadwyedd/ grŵp technegol	Cyfarfodydd / gweithdai Gwefan Datganiad i'r wasg? Postio uniongyrchol Lleoliadau adneuo?	Adroddiad i'w gyflwyno i'r FfRhA/GSG/Cabinet Adroddiad i fod ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn lleoliadau adneuo.	Tîm Polisi Cymorth Gweinyddol Aelodau Argraffu a Phostio Hysbysiadau i'r Wasg/Hysbysiadau Cyhoeddus Cyngor ymgynghoriaethau
Papurau yn ymwneud â Materion	Deall y cyd-destun ar gyfer paratoi'r Cynllun gan ystyried y sail dystiolaeth, y weledigaeth a'r amcanion drwy baratoi papurau pwnc neu gefndir yn ymwneud â materion allweddol ac ystyried dewisiadau.	Ionawr 2014 –	Tîm y CDLI Swyddogion y Cyngor Grŵp Strategaeth Gynllunio Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Y cyhoedd	Cyfarfodydd / gweithdai Gwefan Postio uniongyrchol Lleoliadau adneuo	Papurau yn ymwneud â materion i'w cyflwyno i'r FfRhA/GSG/Cabinet Adroddiadau cymeradwy i fod ar gael ar y wefan ac mewn lleoliadau adneuo	Costau cyfieithu Costau ystafelloedd cyfarfod
Y Strategaeth Ofodol a Dewisiadau Ffafriedig	Cytuno ar gynnwys fersiwn ddrafft y Cynllun Ymgynghori Cyn Adneuo: <ul style="list-style-type: none">Creu dewisiadau strategaeth ac ymgymryd ag arfarnu	Mai 2014 –	Tîm y CDLI Swyddogion y Cyngor Grŵp Strategaeth Gynllunio Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol	Cyfarfodydd / gweithdai Gwefan Datganiad i'r wasg	Adroddiadau i'w cyflwyno i'r FfRhA/GSG/Cabinet/Cyngor Adroddiadau cymeradwy i fod ar gael ar y wefan ac	

	AC/AAS/ARhC <ul style="list-style-type: none"> • Nodi strategaeth ffafriedig • Nodi safleoedd / dyraniadau strategol a gwneud gwaith AC/AAS/ARhC pellach os bydd angen • Nodi meysydd / pynciau ar gyfer y GSG 		Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Ymgynghorwyr penodedig Arfarnu Cynaliadwyedd Cyrff ymgynghori Arfarnu Strategol / grŵp technegol Y cyhoedd	Postio uniongyrchol Lleoliadau adneuo	mewn lleoliadau adneuo	
Paratoi dogfennaeth angenrheidiol	Paratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol a rhoi trefniadau ar waith ar gyfer ymgynghori ar y cynllun cyn adneuo	Hydref 2014 – Tachwedd 2014	Tîm y CDLI			

Cam 4 – Ymgynghori cyn adneuo (Rheoliadau 15 ac 16)

Bydd y Cyngor yn ymgynghori'n eang ar y Cynllun Cyn Adneuo a fydd yn cynnwys y weledigaeth, gwrthwynebiadau, dewisiadau strategol a'r strategaeth ffafriedig yn ogystal â pholisïau allweddol a lleoliadau strategol ar gyfer datblygiadau newydd. Ynghyd â hyn, bydd dogfennaeth ategol megis arfarniadau o'r Cynllun yn cael ei llunio. Bydd y cam hwn yn helpu i ddiffinio cynnwys cynnar y Cynllun a bydd yn sail i ychwanegu dyraniadau a pholisïau manwl yn y Cynllun adneuo dilynol.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Ymgynghori Cyn Adneuo	Amlinellu'r Strategaeth Ffafriedig ar gyfer y Cynllun a safleoedd / dyraniadau strategol a chynnig y cyfle i roi sylwadau ar bolisiau a chynigion	Rhagfyr 2014 – Chwefror 2015 [6 wythnos]	Y Llywodraeth Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Y cyhoedd yn gyffredinol	Rheoliad Gwefan 15(b) Rheoliad Postio Uniongyrchol 15(c) Rheoliad Lleoliadau Adneuo15(a) Datganiadau i'r wasg Rheoliad Hysbysiadau i'r Wasg 15(d) Ffurflen sylwadau Arddangosfeydd Hysbysiadau safle	Cydnabod sylwadau	Cymorth Gweinyddol Argraffu a Phostio Hysbysiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus Swyddogion Eraill y Cyngor
Ymgynghori ar Adroddiad yr AC	Dangos sut mae'r Strategaeth Ffafriedig wedi rhoi sylw i'r AC/AAS/ARhC a rhoi'r cyfle i gyflwyno sylwadau	Rhagfyr 2014 – Chwefror 2015 [6 wythnos]	Y Llywodraeth Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Awdurdodau ymgynghori ar AC Y cyhoedd	Gwefan Postio Uniongyrchol Lleoliadau Adneuo Datganiadau i'r wasg Hysbysiadau i'r wasg Ffurflen sylwadau Arddangosfeydd	Cydnabod sylwadau	Cyngor ymgynghoriaethau Costau cyfieithu Costau ystafelloedd cyfarfod

<p>Aseu ac ystyried sylwadau</p>	<p>Caniatáu ar gyfer ystyried sylwadau a ddaw i law ar y Cynllun a'r Adroddiad AC a llywio'r broses o baratoi'r Cynllun ar adnau.</p>	<p>Mawrth 2015 – Medi 2015</p>	<p>Tîm y CDLI Aelodau Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Grŵp Strategaeth Gynllunio Cyrff ymgynghori AC/ grŵp technegol Ymgynghorwyr penodedig AC</p>	<p>Cyfarfodydd Postio Uniongyrchol</p>	<p>Adrodd am sylwadau i'r FfRhA/GSG/Cabinet/Cyngor</p> <p>Adrodd yn ôl i'r rhai a gyflwynodd sylwadau</p> <p>Gosod dogfennaeth ar y we ac mewn lleoliadau adeuo</p>	
<p>Paratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol i'w hadneuo'n ffurfiol</p>	<p>Paratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer ymgynghori ar y cynllun ar adnau e.e. mapiau cynigion, datganiad ysgrifenedig, Adroddiad AC wedi'i ddiweddarau</p>	<p>Hydref 2015 – Tachwedd 2015</p>	<p>Tîm y CDLI</p>			

Cam 5 – Ymgynghoriad ar Adnau (Rheoliadau 17 hyd at 19)

Bydd y Cyngor yn rhoi fersiwn lawn o'r Cynllun ar adnau yn ffurfiol ar gyfer ymgynghoriad, yn ogystal â dogfennaeth ategol arall. Dylai unrhyw un sydd â buddiant yn y Cynllun, boed hynny o ran strategaeth, polisïau neu gynigion, geisio rhoi sylwadau gan mae'n bosibl mai dyma fydd y cyfle olaf i bartïon â buddiant leisio eu barn am y Cynllun.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pwy?	Pryd?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Ymarfer ymgynghori ar adnau	Caniatáu i bob parti a sefydliad â buddiant roi sylwadau ar y CDLI ar adnau <ul style="list-style-type: none"> • CDLI • Adroddiad arfarnu cynaliadwyedd • Adroddiad ymgynghori cychwynnol • Dogfennau ategol • Hysbysiad cyhoeddus 	Rhagfyr 2015 – Chwefror 2016 [6 wythnos]	Y Llywodraeth Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Y cyhoedd	Rheoliad Gwefan 17(b) Rheoliad Postio Uniongyrchol 17(c) Rheoliad lleoliadau adneuo17(a) Datganiadau i'r wasg Rheoliadau hysbysiadau i'r wasg 17(d) Ffurflen sylwadau Arddangosfeydd Ffurflen sylwadau Hysbysiadau safle	Cydnabod sylwadau	Cymorth Gweinyddol Argraffu a Phostio Hysbysiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus
Ymgynghori ar yr Adroddiad AC	Dangos sut mae'r Cynllun ar Adnau wedi rhoi sylw i'r AC/AAS/ARhC a chynnig y cyfle i roi sylwadau	Rhagfyr 2015 – Chwefror 2016 [6 wythnos]	Y Llywodraeth Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Cyrff ymgynghori'r AS Y cyhoedd	Gwefan Postio Uniongyrchol Lleoliadau adneuo Datganiadau i'r wasg Hysbysiad i'r Wasg Ffurflen sylwadau Arddangosfeydd Ffurflen sylwadau	Cydnabod sylwadau	Cyngor ymgynghori aethau Costau cyfieithu Costau ystafelloedd cyfarfod
Asesu ac ystyried sylwadau	Caniatáu ar gyfer ystyried sylwadau a ddaw i law a phenderfynu p'un a oes angen gwneud newidiadau penodol	Mawrth 2016 – Mehefin 2016	Tîm y CDLI Aelodau Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Grŵp Strategaeth Gynllunio Cyrff ymgynghori AC / grŵp technegol Ymgynghorwyr penodedig AC	Cyfarfodydd Postio Uniongyrchol Rheoliad Gwefan 19(2)b Rheoliad Lleoliadau Adneuo19(2)a	Sicrhau bod sylwadau ar gael i'w harchwilio cyn gynted â phosibl mewn lleoliadau adneuo ac ar y wefan Adrodd am sylwadau i'r FfRhA/GSG/Cabinet/Cyngor Adrodd yn ôl i'r rhai a gyflwynodd sylwadau Gosod dogfennaeth ar y we ac mewn lleoliadau adneuo	

Cam 6 – Ymgynghori ar Safleoedd Newydd / Amgen (Dangosol) (Rheoliadau 20 ac 21)

Efallai y bydd sylwadau ar y cam adneuo wedi awgrymu safleoedd newydd neu ddiwygiadau i'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun neu efallai y byddant wedi awgrymu eu dileu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgynghori â'r cyhoedd ar y safleoedd newydd hyn neu safleoedd amgen er mwyn caniatáu ar gyfer rhoi sylwadau.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnodd
Paratoi rhestr o safleoedd yn deillio o sylwadau ar y cam adneuo o ran i) safleoedd arfaethedig newydd a ii) safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun ond a gynigiwyd fel rhan eu dileu neu eu haddasu	Dirnad i) y safleoedd newydd a argymhellwyd fel rhan o sylwadau ii) y safleoedd hynny a ddyrannwyd yn y Cynllun ond a gynigiwyd fel rhan o'r sylwadau i'w dileu neu eu haddasu		Tîm y CDLI		Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod sylwadau yn ymwneud â dyrannu safleoedd ar gael i'w harchwilio mewn lleoliadau adneuo ac ar y wefan	Cymorth Gweinyddo l Argraffu a Phostio Cyngor ymgynghor iaethau Swyddogion Eraill y Cyngor
Ymgynghori ar Sylwadau yn Ymwneud â Dyrannu Safleoedd	Caniatáu i bob parti â buddiant roi sylwadau ar Sylwadau yn Ymwneud â Dyrannu Safleoedd a gynigiwyd fel rhan o'r sylwadau ar y cam adneuo	Awst 2016 – Medi 2016 [6 wythnos]	Tîm y CDLI Y Llywodraeth Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Y cyhoedd Cyrff ymgynghori AC	Rheoliad Gwefan 20(2)b Rheoliad Postio Uniongyrchol 20(2)c Rheoliad Lleoliadau Adneuo 20(2) a Datganiadau i'r wasg Rheoliad Hysbysiadau i'r Wasg 20(2)d Ffurflen sylwadau Arddangosfeydd Hysbysiadau safle	Cydnabod sylwadau	Hysbysiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddu s Costau cyfieithu
Asesu ac ystyried sylwadau	Penderfynu p'un a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun	Hydref 2016 – Tachwedd 2016	Tîm y CDLI Aelodau Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Grŵp Sratogaeth Gynllunio	Rheoliad Gwefan 21(2)b Rheoliad Postio Uniongyrchol 21(2)a	Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod manylion am sylwadau yn ymwneud â dyrannu safleoedd ar gael mewn lleoliadau adneuo ac ar y wefan Adrodd am sylwadau i'r FfRhA/GSG/Cabinet/Cyngor er mwyn penderfynu p'un a oes angen gwneud newidiadau	Costau ystafelloedd cyfarfod

			Cyrrff ymgynghori AC / grŵp technegol Ymgynghorwyr penodedig AC		penodol Adrodd yn ôl i'r rhai a gyflwynodd sylwadau Gosod dogfennaeth ar y we ac mewn lleoliadau adneuo	
--	--	--	--------------------------------------------------------------------------	--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Cam 7 – Newidiadau penodol (dewisol) [dangosol] Cylchlythyr LIC CL-01-2009

Ar ôl ystyried sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr Ymgynghoriad ar Adnau a'r ymgynghoriad yn ymwneud â Safleoedd Newydd / Amgen, efallai y bydd y Cyngor am wneud newidiadau pellach i'r Cynllun, a elwir yn 'Newidiadau Penodol'. Caiff 'Atodiad' i'r CDLI ar Adnau ei gyhoeddi a'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru a chaiff unrhyw sylwadau a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori chwe wythnos eu hanfon ymlaen yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i'r Arolygydd ystyried y Newidiadau Penodol yn gynnar yn y broses archwilio.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Ymgynghori ar unrhyw Newidiadau Penodol	Cynnig cyfle i roi sylwadau ar y Newidiadau Penodol	Rhagfyr 2016 – Mawrth 2017 [6 wythnos]	Y Llywodraeth Cyrff ymgynghori penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Y cyhoedd Grŵp Strategaeth Gynllunio	Gwefan Postio Uniongyrchol Lleoliadau Adneuo Datganiadau i'r wasg Hysbysiad i'r wasg Ffurflen sylwadau	Cydnabod sylwadau Anfon sylwadau'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru Gosod dogfennaeth ar y we ac mewn lleoliadau adneuo	Cymorth Gweinyddol Argraffu a Phostio Hysbysiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus Costau cyfieithu

Cam 8 – Cyflwyno (Rheoliad 22 a Chylchlythyr LIC CL-01-2009) [Dangosol]

Bydd y Cyngor yn cyflwyno'r CDLI a dogfenaeth ategol yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru er mwyn i Arolygydd Cynllunio eu hystyried yn yr archwiliad.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Cyflwyno'r CDLI a'r dogfennau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru er mwyn i Arolygydd Cynllunio eu hystyried. Gall fod goryffwrdd yma â Cham 8	Sicrhau bod yr holl ofynion gweithdrefnol wedi'u bodloni, bod y dogfennau angenrheidiol wedi'u cynhyrchu a bod y Cynllun wedi bodloni'r profion cadernid, cyn cyflwyno.	Rhagfyr 2016	Y Llywodraeth Yr Arolygiaeth Gynllunio Pob unigolyn arall â buddiant	Gwefan (Rheoliad 22(5)a&d)) Postio Uniongyrchol (Rheoliad 22(5)e) Lleoliadau adneuo (Rheoliad 22(5)c) Datganiadau i'r Wasg Hysbysiadau i'r Wasg (Rheoliad 22(5)b)	Cytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Arolygiaeth Gynllunio	Cymorth Gweinyddol Argraffu / postio Hysbysiadau i'r wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus Penodi Swyddog Rhaglen

Cam 9 – Archwilio (Rheoliad 23)

Caiff archwiliad o gadernid y Cynllun, gan ystyried sylwadau, ei gynnal gan Arolygydd Cynllunio annibynnol. Caiff Swyddog Rhaglen ei benodi gan y Cyngor, ond bydd yn uniongyrchol atebol i'r Arolygydd. Bydd Swyddog y Rhaglen yn ymgymryd â phob mater yn ymwneud â gweithredu'r archwiliad. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu pa faterion a gaiff eu trafod ac yn gwahodd cynrychiolwyr i fynychu ond bydd y sesiynau archwilio ar agor i'r cyhoedd eu gweld.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Hysbysiad o Archwilio'r CDLI	Sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael gwybod y bydd Arolygydd annibynnol yn cynnal archwiliad o'r CDLI	(o leiaf chwe wythnos cyn cychwyn yr Archwiliad)	Pob cynrychiolydd / rhanddeiliad sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu Y cyhoedd	Rheoliad Gwefan 23(1)a Rheoliad Postio Uniongyrchol 23(1)b Datganiadau i'r Wasg Rheoliad Hysbysiadau i'r Wasg 23(1)c	Drwy Swyddog y Rhaglen Cytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Arolygiaeth Gynllunio	Cymorth Gweinyddol Swyddog y Rhaglen Argraffu a Phostio Hysbysiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus
Cyfarfod cyn yr Archwiliad	Caniatáu i'r Arolygydd roi cyngor ar y gweithdrefnau a'r fformatau archwilio (ac i ofyn am wybodaeth ychwanegol os bydd angen)		Pob cynrychiolydd / rhanddeiliad sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu	Gwefan Postio uniongyrchol Datganiadau i'r wasg Cyfarfod Cyhoeddus wedi'i gadeirio gan yr Arolygydd	Drwy Swyddog y Rhaglen Gosod nodiadau'r cyfarfod ar wefan yr archwiliad	Cyngor ymgynghoriaethau Swyddogion Eraill Costau cyfieithu
Arolygydd Cynllunio i gynnal archwiliad annibynnol o'r CDLI	Bydd Arolygydd yn archwilio'r Cynllun yng ngoleuni sylwadau i benderfynu p'un a yw'n 'gadarn'	Ionawr 2017 – Tachwedd 2017	Pob cynrychiolydd / rhanddeiliad sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu Bydd yr archwiliad ar agor i bob parti arall â buddiant ei weld.	Sesiynau bwrdd crwn / Gwrandawiaid anffurfiol wedi'u cadeirio gan yr Arolygydd Sylwadau ysgrifenedig ffurfiol	Drwy Swyddog y Rhaglen	Costau ystafelloedd cyfarfod Sylwadau cyfreithiol Llety ar gyfer yr Arolygydd / llyfrgell / Swyddog y Rhaglen

Cam 10 – Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24)

Bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi Adroddiad yn amlinellu p'un a yw'r Cynllun yn gadarn ai peidio, a ph'un a oes modd ei wneud yn gadarn o ganlyniad i newidiadau neu waith pellach a argymhellir gan yr Arolygydd. Mae argymhellion yr Arolygydd yn rhwymol ar y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y caiff y Cynllun ei fabwysiadu.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Derbyn fersiwn ddrafft o Adroddiad yr Arolygydd	Caniatáu i'r Cyngor ofyn i gamgymeriadau ffeithiol gael eu cywiro cyn i'r Adroddiad gael ei gyflwyno'n ffurfiol iddo	Rhagfyr 2017 [Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiad rhwymol yr Arolygydd 12 mis o adeg cyflwyno'r CDLI ar Adnau i Lywodraeth y Cynulliad]	Tîm y CDLI	Postio Uniongyrchol	Cytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Arolygiaeth Gynllunio	Cymorth Gweinyddol Argraffu a Phostio Hysbysiadau i'r Wasg / Hysbysiadau Cyhoeddus Costau cyfieithu
Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd	Rhoi gwybod i bob parti â buddiant am gyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd		Y Llywodraeth Cyrff Ymgynghori Penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Y cyhoedd	Rheoliad Gwefan 24(2)b Rheoliad Postio Uniongyrchol 24(2)c Datganiad i'r Wasg Rheoliad lleoliadau adneuo 24(2)a		

Cam 11 – Mabwysiadu (Rheoliad 25)

Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun o fewn wyth wythnos o dderbyn Adroddiad yr Arolygydd, drwy benderfyniad ffurfiol gan y Cyngor. Yna hwn fydd y cynllun datblygu statudol ar gyfer pob penderfyniad yn ymwneud â chynllunio defnydd tir yn y Sir, ar yr amod nad oes unrhyw heriau cyfreithiol.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Mabwysiadu ffurfio	Ceisio cael penderfyniad gan y Cyngor i fabwysiadu'r Cynllun gan ystyried argymhellion yr Arolygydd	Chwefror 2018 O fewn wyth wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd			Adroddiad i'r Cyngor Llawn	Cymorth Gweinyddol Argraffu a Phostio
Rhoi gwybod am fabwysiadu'r CDLI a chyhoeddi'r: • CDLI • datganiad mabwysiadu • adroddiad AC terfynol	Rhoi gwybod i bob parti â buddiant am fabwysiadu'r CDLI		Y Llywodraeth Cyrff Ymgynghori Penodol Cyrff ymgynghori cyffredinol ac eraill Y cyhoedd	Rheoliad Gwefan 25(2)b Rheoliad postio uniongyrchol 25(2)d&e Datganiadau i'r wasg Rheoliad Hysbysiad i'r Wasg 25(2)c Rheoliad Lleoliadau Adneuo 25(2)a		Hysbysadau i'r Wasg / Hysbysadau Cyhoeddus Costau cyfieithu Costau cyhoeddi
Cyhoeddi datganiad mabwysiadu ac Adroddiad AC terfynol	Esbonio'n gryno sut mae'r Cyngor wedi ystyried canfyddiadau'r AC wrth baratoi'r Cynllun, a diweddarau'r Adroddiad AC mewn perthynas ag unrhyw argymhellion gan yr Arolygydd	Fel yr uchod	Fel yr uchod	Fel yr uchod		
Cyhoeddi'r CDLI mabwysiedig yn derfynol	Cyhoeddi ar ei ffurf derfynol (copi caled a fersiwn we ryngweithiol) y CDLI mabwysiedig ar gyfer defnyddwyr y Cynllun	Cyn gynted â phosibl ar ôl mabwysiadu (gan ganiatáu i'r cyfnod chwe wythnos ar gyfer her gyfreithiol ddod i ben)		Gwefan Llyfrgelloedd Lleoliadau Adneuo Derbynfaf'r Adran Gynllunio		

Cam 12 – Monitro ac Adolygu (Rheoliad 37)

Mae'n ofynnol i'r Cyngor fonitro'r Cynllun i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol, yn effeithiol ac yn berthnasol. Caiff adroddiad monitro blynyddol ei baratoi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn a fydd yn amlinellu perfformiad y Cynllun.

Cam ym mhroses baratoi'r CDLI	Pwrpas	Pryd?	Pwy?	Sut?	Canlyniadau a'r mecanwaith adrodd	Adnoddau
Cyhoeddi adroddiad monitro	Monitro perfformiad y Cynllun a hysbysu'r adolygiad	blynyddol	Tîm y CDLI Llywodraeth Cymru Panel Cynlluniau Datblygu	Postio Uniongyrchol Gwefan	Penderfyniad gan y Cyngor	
Monitro'r fframwaith AC ac ymateb i effeithiau niweidiol	Monitro effeithiau cynaliadwyedd y Cynllun	blynyddol	Tîm y CDLI Llywodraeth Cymru Panel Cynlluniau Datblygu Cyrff ymgynghori AC / grŵp technegol			

Monitro ac Adolygu

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn adolygu effeithiolrwydd y Cytundeb Cyflenwi drwy gydol y broses o baratoi'r CDLI. Bydd hyn yn sicrhau bod yr amcanion a amlinellir yn y Cynllun Cynnwys y Gymuned yn cael eu bodloni yn unol â'r amserlen arfaethedig. Serch hynny, efallai y bydd amgylchiadau'n codi a fydd yn arwain at oedi o ran paratoi'r Cynllun. Pe byddai'r oedi hwnnw yn arwain at lithriad o fwy na thri mis, byddai angen i'r Cyngor adolygu'r Cytundeb Cyflenwi a byddai'r broses hon yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.


Yn sgil adneuo, mae'r Rheoliadau CDLI yn datgan y dylid adolygu'r amserlen gyda'r ymgynghoreion perthnasol a'i hailgyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb gwasanaeth â'r Arolygiaeth Gynllunio. Dylid gwneud hyn o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod adneuo ffurfiol.

Yn sgil mabwysiadu'r Cynllun, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno adroddiad monitro blynyddol ar y CDLI i Lywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad monitro blynyddol yn sefydlu pa mor effeithiol yw polisiâu a chynigion y Cynllun. Bydd yn asesu p'un a yw'r strategaeth sylfaenol yn parhau i fod yn gadarn a ph'un a oes angen newid unrhyw bolisiâu er mwyn adlewyrchu polisi cenedlaethol neu amgylchiadau lleol sy'n newid. Bydd yr adroddiad monitro blynyddol hefyd yn adrodd ar ddangosyddion CDLI allweddol yn ogystal â'r cyflenwad o dir ar gyfer tai yn y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad llawn o'r Cynllun o leiaf unwaith bob pedair blynedd oni fydd yr adroddiad monitro blynyddol yn dangos bod angen cynnal adolygiad yn gynharach.

Appendices

1. **Map o'r Sir**
2. **Demograffeg leol a phroffil cymunedol**
3. **Rhestr o ymgynghoreion**
4. **Grŵp Llywio'r CDLI / Grŵp Strategaeth Gynllunio / Grŵp Arfarnu Cynaliadwyedd**
5. **Rhestr termau**
6. **Meini Prawf Asesu Cytundeb Cyflenwi Llywodraeth Cymru**
7. **Sylwadau / ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflenwi**
8. **Newidiadau i'r Cytundeb Cyflenwi**
9. **Llythyr cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru**

Atodiad 1 – Map o'r Sir



Atodiad 2 – Demograffeg Leol a Phroffil Cymunedol

Mae gan Sir y Fflint ardaloedd diwydiannol pwysig ac ardal wledig fawr sy'n werthfawr iawn o ran tirwedd. Mae ar ffin Cymru, wedi'i gwahanu oddi wrth Swydd Gaer gan Afon Dyfrdwy. Yn hanesyddol, mae ei heconomi wedi'i seilio ar gyfuniad o ddiwydiannau awyrofod, gweithrediadau milwrol a chynhyrchu dur yn yr ardaloedd diwydiannol, ac amaethyddiaeth yn yr ardaloedd gwledig.

Mae gan y Sir ddynodiadau cadwraeth natur pwysig ac mae rhan ohoni mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Afon Dyfrdwy o bwysigrwydd rhyngwladol o ran cadwraeth natur ac yn Sir y Fflint, mae chwe Ardal Cadwraeth Arbennig, dwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig ac un safle Ramsar. Ceir cymysgedd o aneddiadau, yn amrywio o bentrefannau gwledig bach, i drefi mwy o faint y Fflint a Bwcle. Mae i bob un o'r rhain eu cymeriad, a'u hymdeimlad o le a chymuned unigryw, ond yn yr un modd â llawer o aneddiadau eraill, mae canol trefi yn dirywio a cheir problemau yn ymwneud ag argaeledd tai fforddiadwy.

Poblogaeth Sir y Fflint yw 152,506 (Cyfrifiad 2011), ac mae cyfartaledd o 2.4 o bobl yn byw ar bob aelwyd. Ledled y Sir, ceir dwysedd cyfartalog o 3.5 o bobl fesul hectar, o'i gymharu â dwysedd cyfartalog o 1.5 o bobl fesul hectar ar draws Cymru gyfan. O gyfanswm y boblogaeth, mae'r mwyafrif llethol yn wyn, a daw 1.5% o grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn. Mae 13.2% yn siarad Cymraeg, sy'n isel o gymharu â lefel gyfartalog Cymru o 19%.


Er bod rhai ardaloedd yn Sir y Fflint yn gymharol gyfoethog, ceir ardaloedd difreintiedig o hyd. Mae pedair ardal ymhlith y 190 o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a Shotton yw'r ardal fwyaf difreintiedig yn Sir y Fflint gan ddod yn safle 83 yng Nghymru o ran amddifadedd (WIMD 2011). At hynny, dywedodd 19.5% o boblogaeth Sir y Fflint fod ganddynt salwch cyfyngol hirdymor a dywedodd 18.8% nad oedd eu hiechyd yn dda, ac mae'r ddau ffigur hyn islaw'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan.

Poblogaeth

	Sir y Fflint	Cymru
Pawb	152,506	3,063,456
Gwrywod	75,247	1,504,228
Benywod	77,259	1,559,228
Ardal (hectar)	43,753.91	2,073,510.98
Dwysedd (unigolion fesul hectar)	3.5	1.5

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Strwythur Oedran



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Siaradwyr Cymraeg

	Flintshire	Wales
Can speak Welsh	13.2%	19%
Can speak, read and write Welsh	9.3%	14.6%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Grŵp Ethnig

	Sir y Fflint	Cymru
Gwyn	98.5%	95.6%
Grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn	1.5%	4.4%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Iechyd

	Sir y Fflint	Cymru
% y bobl â salwch cyfyngol hirdymor	19.5	22.7
% y bobl yr oedd eu hiechyd yn:		
Dda iawn	48.7	46.6
Da	32.5	31.1
Gweddol dda	13.2	14.64
Gwael	4.4	5.8
Gwael iawn	1.2	1.8

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gweithgarwch Economaidd

	Sir y Fflint	Cymru
Cyfanswm y gwrywod rhwng 16 a 74 oed	55,843	1,112,839
% y gwrywod rhwng 16 a 74 oed sy'n weithgar yn economaidd	75	70.3
% y gwrywod rhwng 16 a 74 oed sy'n anweithgar yn economaidd	25	29.7
Cyfanswm y benywod rhwng 16 a 74 oed	56,482	1,132,327
% y benywod rhwng 16 a 74 oed sy'n weithgar yn economaidd	65.6	61.3
% y benywod rhwng 16 a 74 oed sy'n anweithgar yn economaidd	34.4	38.7

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Aelwydydd

	Sir y Fflint	Cymru
Nifer yr aelwydydd	63,781	1,302,676
Maint aelwydydd ar gyfartaledd	2.4	2.3
Aelwydydd un unigolyn	17,477	400,768
Aelwydydd unig riant	6,980	147,940
Deiliadaeth:		
Perchenogaeth lwyr	35.1%	35.4%
Morgais	37.7%	32.0%
Rhentu'n rhannol / â morgais rhannol	0.5%	0.3%
Rhentu gan y Cyngor	11.3%	9.8%
Rhentu gan gymdeithas dai	3.8%	6.6%
Rhentu'n breifat	9.3%	12.7%
Rhentu ar sail arall	1.3%	1.5%
Yn ddi-rent	1.0%	1.6%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Atodiad 3 – Rhestr o Ymgynghoreion

B2 Cyrff Ymgynghori Penodol

Llywodraeth Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Awdurdodau Lleol Cyffiniol

Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
Cyngor Bwrdeistref Metropolitaidd Cilgwri

Cynghorau Tref a Chymuned Sir y Fflint

Cyngor Cymuned Argoed
Cyngor Cymuned Bagillt
Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton
Cyngor Cymuned Brynffordd
Cyngor Tref Bwcle
Cyngor Tref Cerwys
Cyngor Cymuned Cilcain
Cyngor Tref Cei Connah
Cyngor Tref y Fflint
Cyngor Cymuned Gwernaffield
Cyngor Cymuned Gwernymynydd
Cyngor Cymuned Helygain
Cyngor Cymuned Penarlâg
Cyngor Cymuned Higher Kinnerton
Cyngor Tref Treffynnon
Cyngor Cymuned Yr Hob
Cyngor Cymuned Coed-llai
Cyngor Cymuned Llanasa
Cyngor Cymuned Llanfynydd
Cyngor Tref yr Wyddgrug
Cyngor Cymuned Mostyn

Cyngor Cymuned Nannerch

Cyngor Cymuned Nercwys
Cyngor Cymuned Llanelwain
Cyngor Cymuned Pentre Catheral
Cyngor Cymuned Penyffordd
Cyngor Cymuned Queensferry
Cyngor Tref Saltney
Cyngor Cymuned Sealand
Cyngor Tref Shotton
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor
Cyngor Cymuned Treuddyn
Cyngor Cymuned Chwitffordd
Cyngor Cymuned Ysceifiog

Cynghorau Tref a Chymuned Cyffiniol – Sir Ddinbych

Cyngor Tref Prestatyn
Cyngor Cymuned Dyserth
Cyngor Cymuned Tremeirchion, Cwm a'r Waun
Cyngor Cymuned Bodfari
Cyngor Cymuned Aberchwiler
Cyngor Cymuned Llandyrnog
Cyngor Cymuned Llanghafal
Cyngor Cymuned Llanbedr-Dyffryn-Clwyd
Cyngor Cymuned Llanferres
Cyngor Cymuned Llanarmon-yn- Iâl
Cyngor Cymuned Llandegla

Cynghorau Tref a Chymuned Cyffiniol – Wrecsam

Cyngor Cymuned Yr Orsedd
Cyngor Cymuned Llai
Cyngor Cymuned Gwersyllt
Cyngor Cymuned Brymbo
Cymuned Cymuned Y Mwynglawdd

Cynghorau Plwyf Cyffiniol – Gorllewin Swydd Gaer a Dinas Caer

Cyngor Plwyf Doddleston a'r Cylch
Cyngor Plwyf Saughall a Shotwick Park
Cyngor Plwyf Puddington a'r Cylch

Cyngor Tref Neston

Telathrebu (cod cyfathrebu electronig - cyfarwyddyd o dan Adran 106(3) Deddf Cyfathrebiadau 2003)

Cymdeithas Gweithredwyr Ffonau Symudol

British Telecom

UK Broadband

Orange Limited

O2 plc

Vodafone Limited

T Mobile Ltd

Hutchinson 3G UK Ltd

Airwave Solutions

EE

Unrhyw un sy'n berchen ar gyfarpar electronig neu ei reoli mewn unrhyw ran o ardal yr awdurdod

Heddlu Gogledd Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

Bwrdd Iechyd Lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Unigolyn y rhoddwyd trwydded iddo yn unol ag adran 6(1)(b) neu (c) deddf trydan 1989

Y Grid Cenedlaethol

Scottish Power

Powersystems UK Ltd

Deeside Power Development Company

Unigolyn y rhoddwyd trwydded iddo yn unol ag adran 7(2) deddf nwy 1986

Nwy Prydain

Y Grid Cenedlaethol

United Utilities

Ymgwymerwr carthffosiaeth / dŵr

Dŵr Cymru

Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ccc

United Utilities

B3 Adrannau Llywodraeth y du

Yr Adran Drafnidiaeth

Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio

Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd

Y Swyddfa Gartref

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

B4 Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

Cyrff gwirfoddol, y mae gweithgareddau rhai neu bob un ohonynt o fudd i unrhyw ran o ardal yr awdurdod

Grwpiau Mynediad Sir y Fflint

Age Concern Cymru

Barnardo's Cymru

Cymunedau yn Gyntaf Bryn Gwalia

Yr Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn

CAIS Wreccsam a Sir y Fflint

Plant yng Nghymru

Sefydliad Datblygu Cymunedol Cymru

Y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol

Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

Cymunedau yn Gyntaf Castell y Fflint

Cymunedau yn Gyntaf Ystad Shotton Uchaf

Cymdogaethau Cymunedau yn Gyntaf Treffynnon

Cymunedau yn Gyntaf Sir y Fflint Wledig

Cymunedau yn Gyntaf Bryn Gwalia

Cynllun Ceir Gwirfoddol Estuary

Ffederasiwn Cymdeithasau Tenantiaid a

Phreswylwyr Sir y Fflint

Achub y Teulu

Trefnu Cymunedol Cymru

Unllais Gogledd-ddwyrain Cymru

Youth Cymru

Cyrrff sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru
Y Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig
Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr
Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru
Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn
Race Council Cymru
Y Prosiect Diwygio Cyfraith Teithwyr
Y Mudiad Teithwyr Gwyddelig ym Mhrydain
Cymdeithas y Sipsiwn (Cyngor)
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Sefydliad y Merched, Swyddfa Cymru

Cyrrff sy'n cynrychioli gwahanol grwpiau crefyddol

Yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru
Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr
Esgobaeth Wrecsam
Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru
Y Crynwyr
Byddin yr Iachawdwriaeth
Eglwysi Ynghyd ar Lannau Dyfrdwy

Cyrrff sy'n cynrychioli pobl anabl

Agoriad Cyf
Y Gymdeithas Clefyd Alzheimer
Gofal Arthritis Cymru
Asthma UK Cymru
Elusen Shine Cymru
Sefydliad Prydeinig y Galon
Grŵp Cymorth ME Clwyd
Yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig
Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru
Deaf Access Cymru
Disabled Motoring
Y Pwyllgor Cyngori ar Gludiant i Bobl Anabl

Anabledd Cymru
Epilepsi Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Cynghorydd Hillary McGuill	Na Nid yw'n gofyn beth rydym ei eisiau nac yn dangos beth ellir ei ofyn.	Ni dderbyniwyd. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn ymwneud â'r raddfa amser a'r prosesau o baratoi'r CDLI. Nid yw'n ymwneud ar hyn o bryd â materion defnyddio tir a chynllunio eu hunain. Trafodir y rhain wrth i waith ddechrau yn ffurfiol ar y Cynllun ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi.	amherthnasol
Cyngor Cymuned Argoed	Na Dim amcanion clir	Nodwyd. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn ddogfen sy'n mynd ati i amlinellu'r amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun a'r prosesau a'r egwyddorion i'w dilyn. Nid yw'n briodol i'r Cytundeb Cyflenwi bennu amcanion a materion yn ymwneud â chynllunio a defnyddio tir gan y nodir y rhain yn glir yn y Cytundeb Cyflenwi fel rhan o Gam 3 yn y broses h.y. cyfranogiad cyn adneuo a cham 4 h.y. ymgynghoriad cyn adneuo.	Dim newid
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Na Mae'r Cytundeb Cyflwyno drafft wedi'i gyflwyno'n glir, ond mae'n anodd ei ddeall, yn enwedig mewn perthynas â'r broses benodol a fydd yn dewis aelodau o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.	Nodwyd. Mae proses y CDLI yn un hir a chymhleth ond mae'r Cytundeb Cyflenwi wedi ceisio ei hesbonio mor syml ag y bo modd, gan ei rhannu i'r camau cydrannol, ac esbonio diben a mecanweithiau pob un ohonynt. Mae'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn cynnwys y cyrff a'r grwpiau allweddol hynny sy'n gallu cyflawni rôl fwy strategol yn llywio'r Cynllun a'i weithredu wedyn. Rhaid cael terfyn ar nifer y cynrychiolwyr sy'n eistedd ar y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol er mwyn sicrhau gallu ymdrin yn hwylus â'i rôl a'i swyddogaeth. Byddai'n amhosibl gwahodd grwpiau	Yn yr 2 ^{ll} bara o'r adran 'Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol' ychwanegu at ddiwedd y frawddeg gyntaf 'Mae'r Fforwm yn cynnwys yr ymgynghoreion a'r sefydliadau statudol allweddol hynny sy'n cynrychioli'r amgylchedd a'r disgyblaethau cymdeithasol ac economaidd sy'n

		preswylwyr i fforwm o'r fath, o ystyried nifer debygol grwpiau felly. Fodd bynnag, bwriedir ychwanegu testun pellach at yr adran hon o'r Cytundeb Cyflenwi i roi esboniad pellach o rôl y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.	chwarae rôl fwy strategol wrth drafod materion allweddol'.
Cyngor Cymuned Penyffordd	Na Mae wedi'i gyflwyno'n glir ond mae'n broses rhy gymhleth er anfantais i gymunedau lleol.	Nodwyd Mae'r broses o baratoi CDLI yn broses wedi'u rhagnodi gan Lywodraeth Cymru. Er bod y broses baratoi yn un hir a chymhleth, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod y Cytundeb Cyflenwi yn ei rhannu yn gamau a phrosesau unigol, ac yn ceisio esbonio mor syml â phosibl beth mae pob cam yn ei olygu. Ni dderbynnir bod y broses er anfantais i gymunedau lleol. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn pwysleisio drwyddo draw bod y Cyngor am ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn ystod camau cynnar paratoi'r Cynllun yn hytrach nag ymgynghori'n unig fel gyda'r CDU.	Dim newid
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Na Er budd i'r unigolyn llewg, dylai'r holl fyfoddau / acronymau a ddefnyddir yn y ddogfen gael eu cynnwys mewn geirfa ar wahân i'w gwneud hi'n haws o lawer i ddeall a darllen y Cytundeb Cyflenwi.	Nodwyd. Mae adolygiad wedi'i gynnal o'r ddogfen ar gyfer byfoddau / acronymau a darperir y derminoleg lawn pan fydd yn ymddangos gyntaf yn y ddogfen.	Sicrhau bod yr holl fyfoddau / acronymau wedi'u hesbonio yn y ddogfen.

Amserlen:

C4 Amserlen - A ydych o'r farn bod yr amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r CDLI yn realistig ac yn gyflawnadwy?

Cyngor Tref yr Wyddgrug	Ydyn Dylai fod dyddiad terfyn ar gyfer Cam 2. Mae Cam 4 yn 11 mis ac nid 15 mis. Dylai Cam 8 fod yn Tach 17 i ganiatáu ar gyfer cam 7.	Nodwyd. Yng ngolau'r sylwadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru bwriedir cywasgu'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun.	Bod y Cytundeb Cyflenwi yn cael ei ddiwygio trwy dynnu'r amserlen yn ei hôl gyda dyddiadau allweddol fel a ganlyn: Drafft ymgynghori cyn adneuo Rhagfyr 2014, Adneuo Rhagfyr 2015 a chyflwyno Rhagfyr 2016.
Girlguiding Cymru	Nac ydyn Mae Ionawr 2019 yn 5.5 mlynedd i ffwrdd – bydd bywyd a disgwyliadau wedi newid yn y cyfnod hwnnw.	Derbynnir bod 2019 ymhell i ffwrdd ac y gallai pethau newid. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio mai holl ddiben cynllun datblygu yw cynllunio ymlaen llaw ar gyfer cyfnod 15 mlynedd gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gadarn. Bydd unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn amgylchiadau neu arweiniad newydd gan y Llywodraeth yn cael eu nodi trwy fonitro, a chychwynnir ar adolygiad o'r Cynllun.	Bod y Cytundeb Cyflenwi yn cael ei ddiwygio trwy dynnu'r amserlen yn ei hôl gyda dyddiadau allweddol fel a ganlyn: Drafft ymgynghori cyn adneuo Rhagfyr 2014, Adneuo Rhagfyr 2015 a chyflwyno Rhagfyr 2016.

		Serch hynny, yng ngolau pryderon ynglŷn â'r amserlen, bwriedir lleihau'r amser a gymer i baratoi'r Cynllun.	
Cyngor Cymuned Argoed	Nac ydyn Nid oes ymgynghoriad yn cael ei gynnal ac nid oes digon o amser wedi'i roi i gasglu data, ac nid ydym yn gwybod pa bryd fydd yr ymgynghori.	Nodwyd Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn nodi o'r Crynodeb Gweithredol ymlaen bod y broses paratoi'r Cynllun yn seiliedig ar ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'r amserlen fanwl yn y Cynllun Cynnwys y Gymuned yn nodi diben pob cam ac yn amlinellu pa bryd, sut a phwy fydd ynghlwm. Bydd y broses casglu gwybodaeth yn parhau trwy gydol y broses.	Dim newid
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Nac ydyn Mae'r amserlen i ganiatáu i gynghorau cymuned ymgynghori â'r gymuned a'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu cymunedol ar ôl hynny yn heriol, ac nid yw pob un o'r cynghorau cymuned wedi'i derbyn.	Nodwyd Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn broses heriol ond rhaid cydbwysu'r angen i ymgysylltu ac ymgynghori yn erbyn yr angen i CDLI mabwysiedig fod yn ei le cyn gynted ag y bo modd. Mae'r sylw gan Lywodraeth Cymru wedi nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amserlen gyhoeddedig, ac mae'r Cyngor yn derbyn bod cyfiawnhad dros amserlen fwy uchelgeisiol. Mae'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Cymunedol yn cael ei groesawu gan y gall ffurfio rhan o'r broses casglu tystiolaeth i lywio paratoi'r Cynllun. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i bob Cyngor Tref a Chyngor Cymuned wneud hynny. Yn ogystal, Ni fydd CDCau o'r fath yn ffurfio rhan o'r CDLI ei hun a rhaid iddynt weithredu fel dogfennau annibynnol.	Diwygio'r amserlen
Roundhouse Properties (NJL Properties)	Nac ydyn Gweler y llythyr atodedig (sylw gan Ymddiriedolaeth Rothschild (Schweiz) AG)	Nodwyd Gweler yr ymateb i'r sylw gan Ymddiriedolaeth Rothschild (Schweiz) AG	Diwygio'r amserlen
Cyngor Cymuned Penyffordd	Nac ydyn A ddylai fod angen i'r broses gymryd gymaint o amser mewn gwirionedd?	Nodwyd. Yng ngolau'r sylwadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru bwriedir cywasgu'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun.	Bod y Cytundeb Cyflenwi yn cael ei ddiwygio trwy dynnu'r amserlen yn ei hôl gyda dyddiadau allweddol fel a ganlyn: Drafft ymgynghori cyn adneuo Rhagfyr 2014, Adneuo Rhagfyr 2015 a chyflwyno Rhagfyr 2016.
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Nac ydyn Mae'n ystyried bod llithriant yn anochel yn sgil toriadau i'r gyllideb a	Nodwyd. Er y potensial i lithriant ddigwydd o ganlyniad i amrywiaeth o amgylchiadau, ystyrir bod buddion i'w	Bod y Cytundeb Cyflenwi yn cael ei ddiwygio trwy dynnu'r amserlen yn ei hôl gyda

	gwrthwynebiadau sylweddol i unrhyw bolisi a ategir a allai fod yn ddadleuol i rai ymgyngoreion a thrydydd partion.	cael o fabwysiadu amserlen fwy uchelgeisiol fel yr amlinellir gan Lywodraeth Cymru.	dyddiadau allweddol fel a ganlyn: Drafft ymgyngori cyn adneuo Rhagfyr 2014, Adneuo Rhagfyr 2015 a chyflwyno Rhagfyr 2016.
Cyngor Cymuned Llanceurgain	Ydyn, mae'r amserlen i weld yn realistig ac yn gyflawnadwy, ac mae llithriant wedi'i nodi fel risg.	Nodwyd Er y potensial i lithriant ddigwydd o ganlyniad i amrywiaeth o amgylchiadau, ystyrir bod buddion i'w cael o fabwysiadu amserlen fwy uchelgeisiol fel yr amlinellir gan Lywodraeth Cymru.	Bod y Cytundeb Cyflenwi yn cael ei ddiwygio trwy dynnu'r amserlen yn ei hôl gyda dyddiadau allweddol fel a ganlyn: Drafft ymgyngori cyn adneuo Rhagfyr 2014, Adneuo Rhagfyr 2015 a chyflwyno Rhagfyr 2016.
Aldi Stores Ltd	Nac ydyn Mae'r amserlen i weld yn rhy hir. O'r cam paratoi i fabwysiadu, fe allai'r Cyngor golli cyfleoedd buddsoddi o bosibl oherwydd sicrwydd parhaus ynglŷn â chynllunio trwy gyfnod datblygu maith y Cynllun. Nid yw'n glir pa bryd y gellir rhoi safleoedd gerbron – o ran dyraniadau safleoedd (cam 6) trefnwyd i dderbyn sylwadau o fis Chwefror 2017 ond trefnwyd bod y map cynigion (cam 4) i'w ystyried yn Rhagfyr 2015. Nid yw ddau gam yr ymgyngoriad i weld yn cyfuno a dylid eu hystyried gyda'i gilydd neu yn y drefn o chwith.	Nodwyd. Yng ngolau'r sylwadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru bwriedir cywasgu'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun. Gellir rhoi safleoedd gerbron i'w hystyried i'w cynnwys yn y CDLI adeg yr Alwad am Safleoedd Arfaethedig sy'n cael ei esbonio yng Ngham 2, ac y trefnwyd iddi ddechrau yn Nhachwedd 2013. Ni dderbynnir bod unrhyw ddiffyg eglurder rhwng cam 4 a cham 6. Cam 4 yw cyhoeddi'r 'Cynllun Ymgyngori Cyn Adneuo', sef y strategaeth ffafriedig, a bydd yn cynnwys rhai dyraniadau safleoedd arfaethedig allweddol. Cam 6 yw cyhoeddi, ar gyfer ymgyngori, y 'safleoedd Newydd neu Amgen' hynny a gyflwynwyd yn ystod cam 5 'Ymgyngori ar y Cynllun ar Adnau'.	Diwygio'r amserlen fel uchod

Cynllun Cynnwys y Gymuned

C5 – A yw'n glir sut a phryd y ceuch chi'r cyfle i ymwneud â'r broses o baratoi'r Cynllun?

Y Cyngorydd Hillary McGuill	Nac ydy Nid yw'r mecanwaith yn glir. Mae'n bwysig ymgyngori â phawb yr effeithir arnynt gan y newid arfaethedig.	Nodwyd. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn esbonio y bydd nifer o ddulliau'n cael eu defnyddio i ymgysylltu ac ymgyngori ag amryw byd o gyrff, grwpiau ac unigolion er mwyn sicrhau cwrpas da. Fodd bynnag, ni fydd modd cynnwys pawb.	Dim newid
Trigolion Bryn yn Erbyn Datblygiad Newydd	Nac ydy Nid yw'r mecanwaith yn glir ynglŷn â	Nid y Cytundeb Cyflenwi yw'r lle priodol am arweiniad manwl ar broses Safleoedd Arfaethedig – cyhoeddir	Dim newid

	<p>chynnwys y gymuned mewn perthynas â safleoedd datblygu arfaethedig. Mae'n bwysig ymgynghori nid yn unig â Cynghorau Tref a Chymuned, ond hefyd gydag unigolion a grwpiau sy'n cynrychioli materion cymunedol</p>	<p>arweiniad maes o law ar gyflwyno safleoedd a bydd y fethodoleg ar gyfer asesu safleoedd yn destun ymgynghoriad penodol.</p> <p>Serch hynny, mae'r Cytundeb Cyflenwi yn pennu y bydd Safleoedd Arfaethedig yn cael eu cyhoeddi mewn lleoliadau allweddol ac ar y wefan, er gwybodaeth. Mae'n pennu hefyd mai yng Ngham 3, opsiynau strategol (fel rhan o waith paratoi'r strategaeth ffafriedig) fydd y testun ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd dyraniadau allweddol yn yr ymgynghoriad cyn adneuo a'r holl ddyraniadau yn y Cynllun ar Adnau yn destun ymarferiadau ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol hefyd.</p> <p>Derbynnir bod rhaid ymgysylltu ac ymgynghori gyda sbectrwm eang o unigolion nid Cynghorau Tref a Chymuned yn unig.</p>	
Cyngor Tref yr Wyddgrug	<p>Ydy. Fodd bynnag, dim ond unwaith yn y broses y cyfeirir at Cynghorau Tref a Chymuned</p>	<p>Nodwyd. Fodd bynnag, mae'r adran 'Cyrrf ymgynghori' ar dud15 o'r Cytundeb Cyflenwi yn esbonio bod cynghorau tref a chymuned yn gorff ymgynghori 'penodol' a rhestrir y rhain ym mhob cam perthnasol yn y Cynllun Cynnwys y Gymuned. Rhestrir Cynghorau Tref a Chymuned yn unigol hefyd yn Atodiad 3. Nid yw'n angenrheidiol rhestru 'Cynghorau Tref a Chymuned' ar wahân trwy gydol y ddogfen.</p>	Dim newid
Y Cynghorydd Amanda Bragg	<p>Nac ydy Nid yw'n teimlo bod y Cytundeb Cyflenwi yn adlewyrchu'n glir nifer amrywiol y cynrychiolwyr yn y cymunedau lleol y dylid ymgynghori â nhw. Ymddengys mai Cynghorau Tref a Chymuned yw'r unig rai.</p>	<p>Nodwyd. Nid yw cyflwynydd y sylw yn pennu pwy yw'r cynrychiolwyr hyn. Mae gan Cynghorau Tref a Chymuned ran allweddol i'w chwarae yn natblygiad y Cynllun am eu bod yn cynrychioli cyswllt a etholwyd yn ddemocrataidd rhwng y Cyngor Sir a'r boblogaeth leol. Serch hynny, mae Atodiad 3 yn amlinellu ystod eang o ymgynghoreion a fydd lawn mor bwysig yn y broses, ac yn ddiau fe ddônt i'r golwg wrth i'r Cynllun ddatblygu.</p>	Dim newid
Cyngor Cymuned Argoed	<p>Nac ydy Nid yw'r mecanwaith yn glir ynglŷn â chynnwys y gymuned, yn enwedig mewn perthynas â safleoedd datblygu arfaethedig. Bydd yn bwysig ymgynghori nid yn unig â Cynghorau</p>	<p>Nid y Cytundeb Cyflenwi yw'r lle priodol am arweiniad manwl ar broses Safleoedd Arfaethedig – cyhoeddir arweiniad maes o law ar gyflwyno safleoedd a bydd y fethodoleg ar gyfer asesu safleoedd yn destun ymgynghoriad penodol.</p>	Dim newid

	Tref a Chymuned, ond hefyd gydag unigolion a grwpiau sy'n cynrychioli materion cymunedol.	<p>Serch hynny, mae'r Cytundeb Cyflenwi yn pennu y bydd Safleoedd Arfaethedig yn cael eu cyhoeddi mewn lleoliadau allweddol ac ar y wefan, er gwybodaeth. Mae'n pennu hefyd mai yng Ngham 4, opsiynau strategol (fel rhan o waith paratoi'r strategaeth ffafriedig) fydd y testun ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd dyraniadau allweddol yn yr ymgynghoriad cyn adneuo a'r holl ddyraniadau yn y Cynllun ar Adnau yn destun ymarferiadau ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol hefyd.</p> <p>Derbynnir bod rhaid ymgysylltu ac ymgynghori gyda sbectrwm eang o unigolion nid Cynghorau Tref a Chymuned yn unig.</p>	
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Nac ydy Nid yw Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol, ac nid yw'r dull o ddethol yn cael ei ddisgrifio. Fel lleiafswm, dylai fod clystyrau o gynghorau cymuned yn cael eu cynrychioli gan unigolyn wedi'i ddewis gan glwstwr.	<p>Nodwyd Gweler yr ymateb i C3.</p> <p>Mae'r adran 'Cyrrff ymgynghori' ar dud15 o'r Cytundeb Cyflenwi yn esbonio bod cynghorau tref a chymuned yn gorff ymgynghori 'penodol' a rhestrir y rhain ym mhob cam perthnasol yn y Cynllun Cynnwys y Gymuned. Rhestrir Cynghorau Tref a Chymuned yn unigol hefyd yn Atodiad 3.</p> <p>Bydd barnau Cynghorau Tref a Chymuned yn ogystal â barnau rhanddeiliaid eraill yn cael eu bwydo i'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol i'w trafod, ac i sicrhau consensws eang, cyn cael eu hadrodd i gyrrff penderfynu'r Cyngor. Gyda 34 o Gynghorau Tref a Chymuned, byddai'r broses o nodi clystyrau yn ogystal â dewis cynrychiolwyr i eistedd ar y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn llawn anawsterau.</p>	Gweler C3.
Cyngor Cymuned Penyffordd	Nac ydy Yn yr adran 'Sut a Phryd y caiff y Gymuned ei Chynnwys' ar dudalen 14 nid oes unrhyw awgrym sut fydd y broses drafod yn cael ei threfnu, pwy yn union fydd ynghlwm a'r fforwm ar gyfer y cam hwn. Nid oes amser clir wedi'i bennu ar gyfer y cam hwn.	<p>Nodwyd. Mae'r testun y cyfeirir ato ar dud14 yn esbonio y bydd nifer o gyfleoedd i gynnwys y gymuned trwy gydol y broses. Cyfeirir hefyd at y tabl manwl nes ymlaen yn y ddogfen sy'n rhoi esboniad manylach o bob un o'r camau a amlinellir yn yr amserlen gryno. Mae'r Cytundeb Cyflenwi ar dud15 hefyd yn rhoi sylwebaeth ar ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori presennol, ac yna'n amlinellu ystod o ddulliau y gellid ei defnyddio fel rhan o waith paratoi'r CDLI, gan ddibynnu ar y dasg benodol dan sylw.</p>	Dim newid

Aldi Stores Ltd	Nac ydy Mae Aldi Stores yn dymuno cael eu cynnwys yn y broses paratoi'r cynllun a byddai'n dymuno cael gwybodaeth ym mhob cam o'r broses felly. Fel gweithredwr yn Sir y Fflint gyda dwy siop, perchenogaeth ar safle datblygu ar gyfer siop newydd, a diddordeb i ddatblygu lleoliadau eraill, byddai Aldi yn dymuno bod ynghlwm â'r Fforymau Rhanddeiliaid.	Nodwyd Rhoddir gwybodaeth i Aldi Stores Ltd yn ystod pob cam o'r broses paratoi'r cynllun. O ran y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol, gweler yr ymateb i C10.	Dim newid
C6 – A yw'n eglur beth fydd y Cyngor yn ei ddisgwyl gan rhanddeiliaid trwy gydol y broses?			
Y Cyngorydd Hillary McGuill	Nac ydy Cynghorau Cymuned sy'n adnabod eu hardal orau, a phe gofynnid iddynt ar y cychwyn ble i ddatblygu a pham mae ei angen, bydd yn ymateb.	Nodwyd. Fodd bynnag, mae'r Cytundeb Cyflenwi yn cydnabod bod Cynghorau Tref a Chymuned yn 'gorff ymgynghori penodol' ac y byddant yn chwarae rhan allweddol i ddatblygu'r Cynllun trwy bob cam. Bydd Cam 3 y broses baratoi yn galluogi Cynghorau Tref a Chymuned i gyfrannu at baratoi gweledigaeth, amcanion, meysydd chwilio, safleoedd datblygu allweddol y Cynllun, ac ati.	Dim newid
Trigolion Bryn yn Erbyn Datblygiad Newydd	Nac ydy O ystyried y pwyslais i'w groesawu ar gynnwys, nid yw'r un o'r rhanddeiliaid allweddol a ddisgrifir yn Atodiad 4 yn cynrychioli cymunedau lleol. Er y cydnabyddir cyfraniad Cynghorau Tref a Chymuned, dylai eu rôl ymwneud yn bennaf â datblygu cynigion ar gyfer eu hardal.	Nodwyd. Derbynnir bod rhaid ymgysylltu ac ymgynghori gyda sbectwm eang o unigolion nid Cynghorau Tref a Chymuned yn unig. Mae'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn cynnwys y cyrff a'r grwpiau allweddol hynny sy'n gallu cyflawni rôl fwy strategol yn llywio'r Cynllun a'i weithredu wedyn. Rhaid cael terfyn ar nifer y cynrychiolwyr sy'n eistedd ar y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol er mwyn sicrhau gallu ymdrin yn hwylus â'i rôl a'i swyddogaeth. Byddai'n amhosibl gwahodd grwpiau preswylwyr i fforwm o'r fath, o ystyried nifer debygol grwpiau felly. Fodd bynnag, ni dderbynnir y dylai rôl Cynghorau Tref a Chymuned ymwneud yn bennaf â datblygu cynigion ar gyfer eu hardal. Mae gan Cynghorau Tref a Chymuned ran allweddol i'w chwarae trwy gydol pob agwedd ar baratoi'r Cynllun.	Dim newid
Y Cyngorydd	Nac ydy	Nodwyd.	Dim newid

Amanda Bragg	Mae'r manylion yn rhy amhendant ac nid oes digon o wybodaeth yn y Cytundeb Cyflenwi.	Nid yw cyflwynydd y sylw yn rhoi pa fanylion a gwybodaeth y dylai'r Cytundeb Cyflenwi eu cynnwys. Mae'r Cytundeb Cyflenwi wedi ceisio darparu rhai egwyddorion allweddol ynglŷn â beth a ddisgwylir gan randdeiliaid trwy gydol y broses. Os yw cyflwynydd y sylw yn anghytuno â'r rhain, yna dylid fod wedi rhoi manylion.	
Cyngor Cymuned Argoed	Nac ydy O ystyried y pwyslais i'w groesawu ar gynnwys y gymuned, nid ellir dweud bod yr un o'r rhanddeiliaid a ddisgrifir yn Atodiad 4 yn cynrychioli cymunedau lleol. Er y cydnabyddir cyfraniad Cyngorau Tref a Chymuned, dylai eu rôl ymwneud yn bennaf â datblygu cynigion ar gyfer eu hardal. Nid yw'n eglur pwy yw'r rhanddeiliaid.	Nodwyd. Derbynir bod rhaid ymgysylltu ac ymgynghori gyda sbectrwm eang o unigolion nid Cyngorau Tref a Chymuned yn unig. Mae'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn cynnwys y cyrff a'r grwpiau allweddol hynny sy'n gallu cyflawni rôl fwy strategol yn llywio'r Cynllun a'i weithredu wedyn. Rhaid cael terfyn ar nifer y cynrychiolwyr sy'n eistedd ar y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol er mwyn sicrhau gallu ymdrin yn hwylus â'i rôl a'i swyddogaeth. Byddai'n amhosibl gwahodd grwpiau preswylwyr i fforwm o'r fath, o ystyried nifer debygol grwpiau felly. Fodd bynnag, ni dderbynir y dylai rôl Cyngorau Tref a Chymuned ymwneud yn bennaf â datblygu cynigion ar gyfer eu hardal. Mae gan Gyngorau Tref a Chymuned ran allweddol i'w chwarae trwy gydol pob agwedd ar baratoi'r Cynllun. 'Rhanddeiliaid' yw enw cyfunol unrhyw un sy'n ymwneud â'r Cynllun.	Dim newid
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Nac ydy Nid ymdrinnir â dymunoldeb cyngorau cymuned yn paratoi eu cynllun datblygu eu hunain, a chwmpas a fformat posibl cynlluniau felly. Byddai argaeledd cynlluniau lleol o'r fath yn cynorthwyo'n fawr â datblygu'r CDLI.	Nodwyd. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru o ran amlinellu sut a phryd y bydd y CDLI yn cael ei baratoi. Dim ond arweiniad ar baratoi'r CDLI ei hun y gall gynnwys. Gweler hefyd yr ymateb i gwestiynau cynharach.	Dim newid
C7 – A yw'n eglur beth fydd y rhanddeiliaid yn ei ddisgwyl gan y Cyngor trwy gydol y broses?			
Y Cyngorydd Hillary McGuill	Nac ydy Mae angen mwy o ganllawiau er mwyn osgoi sefyllfa afreolus ('free for	Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn amlinellu nifer o ddisgwyliadau gan y Cyngor o ran sut fydd yn ymddwyn wrth baratoi'r Cynllun. Nid yw'n eglur beth mae	Dim newid

	all').	cyflwynydd y sylw yn ei olygu gan 'free for all' neu pa ganllawiau y gellir eu cyflwyno i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.	
Y Cyngorydd Amanda Bragg	Nac ydy Mae o'r farn fod y manylion yn amhendant	Nodwyd. Nid yw' cyflwynydd y sylw yn rhoi manylion ynglŷn â sut y mae'r rhan hon o'r Cytundeb Cyflenwi yn amhendant. Mae'r Cytundeb Cyflenwi wedi ceisio darparu rhai egwyddorion allweddol ynglŷn â beth y gall rhanddeiliaid ei ddisgwyl gan y Cyngor trwy gydol y broses. Os yw cyflwynydd y sylw yn anghytuno â'r rhain, yna dylid fod wedi rhoi manylion.	
Cyngor Cymuned Argoed	Nac ydy Nid oes golwg glir o'r hyn y mae'r Cyngor ei eisiau gan y gymuned ac felly sut all y gymuned wybod beth i'w ddisgwyl.	Nodwyd Mae'r Cyngor yn amlinellu yn y Cytundeb Cyflenwi beth yw ei ddisgwyliadau gan y gymuned a disgwyliadau'r gymuned gan y Cyngor. Nid yw cyflwynydd y sylw yn rhoi unrhyw fanylion am ba egwyddorion y dylid eu cynnwys.	Dim newid
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Nac ydy Dylid cynnwys cyfarfodydd briffio ffurfiol gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn y broses, fel rhan o gyfarfodydd Fforwm y Cyngor o bosibl.	Nodwyd	Gellir cynnwys cyfarfodydd briffio yn nhrefniadau'r Fforwm Sirol.
C8 – A oes unrhyw ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori penodol yr ystyriwch y dylid eu defnyddio wrth baratoi'r Cynllun?			
Y Cyngorydd Hillary McGuill	Oes Dysgu o gamgymeriadau'r CDU ac ymgynghori â grwpiau ac unigolion cyn gwneud penderfyniadau.	Nodwyd Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn esbonio bod y Cyngor am ymgysylltu â'r cyhoedd wrth i'r Cynllun gael ei baratoi, yn hytrach nag ymgynghori ar y Cynllun ar adnau, fel gyda'r CDU. Y bwriad ceisio consensws ynglŷn â gweledigaeth, amcanion, strategaeth, meysydd chwilio ar gyfer twf a dyraniadau posibl cyn bod safleoedd yn cael eu dyrannu yn y Cynllun.	Dim newid
Cyngor Tref Mostyn	Oes Unrhyw dull a fyddai'n annog cynnwys cynghorau cymuned yn weithredol.	Nodwyd. Mae'r rhan 'Dulliau ymgynghori presennol ac arfaethedig' y Cytundeb Cyflenwi yn amlinellu nifer o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori y gellir eu defnyddio. Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn ymgynghorai allweddol yn y broses paratoi'r Cynllun a byddant yn cael cyfleoedd	Dim newid

		i helpu llunio'r Cynllun. Fodd bynnag gall Cynghorau Tref a Chymuned chwarae rhan hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd grwpiau a phobl leol.	
Y Cynghorydd Amanda Bragg	Oes Ymgynghori â'r ardaloedd a'r trigolion lleol cyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â safleoedd arfaethedig gan atal oedi a gwrthwynebiadau nes ymlaen.	Nodwyd Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn esbonio bod y Cyngor am ymgysylltu â'r cyhoedd wrth i'r Cynllun gael ei baratoi, yn hytrach nag ymgynghori ar y Cynllun ar adnau, fel gyda'r CDU. Y bwriad ceisio consensws, cyn belled ag y bo modd, ynglŷn â gweledigaeth, amcanion, strategaeth, meysydd chwilio ar gyfer twf a dyraniadau posibl cyn bod safleoedd yn cael eu dyrannu yn y Cynllun. Fodd bynnag, dylid cydnabod y bydd pob safle datblygu yn ennyn gwrthwynebiadau ac yn y cyd-destun hwn dylai'r Cynllun gael ei baratoi ar sail nodi'r lleoliadau a'r safleoedd mwyaf cynaliadwy i'w datblygu yn hytrach na lefel y gwrthwynebiad iddynt yn unig.	Dim newid
Cyngor Cymuned Argoed	Oes Os ydym i osgoi camgymeriadau'r CDU bydd yn bwysig ymgynghori â chynrychiolwyr etholedig y cyngor cymuned ac ni ddylai effeithio ar hawliau unrhyw grwpiau neu unigolion eraill. Dylid defnyddio cyfarfodydd cyhoeddus fel dull ymgynghorid.	Nodwyd Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn esbonio bod y Cyngor am ymgysylltu â'r cyhoedd wrth i'r Cynllun gael ei baratoi, yn hytrach nag ymgynghori ar y Cynllun ar adnau, fel gyda'r CDU. Y bwriad ceisio consensws ynglŷn â gweledigaeth, amcanion, strategaeth, meysydd chwilio ar gyfer twf a dyraniadau posibl cyn bod safleoedd yn cael eu dyrannu yn y Cynllun. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn amlinellu nifer o ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori, gan gynnwys seminarau ac arddangosfeydd. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd cyhoeddus yn ffordd dda o ysgogi trafodaeth synhwyrol am faterion gan y gallant annog ymddygiad afreolus a gall yr ychydig rai uchel eu cloch lethu'r sefyllfa.	Dim newid
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Oes Dylai cynlluniau datblygu cymunedol lleol wedi'u seilio ar arolygon lleol a'u paratoi gan Gynghorau Tref a Chymuned fod yn rhan fawr o waith paratoi'r CDLI.	Nodwyd Anogir paratoi cynlluniau cymunedol lleol ac mae'n amlwg yn fanteisiol. Fodd bynnag, er y gallant lywio'r CDLI, maent ar wahân i'r CDLI ei hun. Byddai'n gamarweiniol ac yn amhriodol i'r Cytundeb Cyflenwi roi arweiniad ar baratoi cynlluniau cymunedol lleol.	Dim newid
Roundhouse Properties (NJL Properties)	Oes Mae'n cefnogi sefydlu Fforwm Rhanddeiliaid ac yn teimlo y dylid ymgynghori â datblygwyr trwy gydol y broses.	Nodwyd. Derbynnir bod gan ddatblygwyr ran allweddol yn y broses a rhagwelir y daw'r mwyafrif o'r rhain yn hysbys i'r Cyngor trwy broses y Safleoedd Arfaethedig. Pan fyddant yn rhan o'r system, ymgynghorir â'r cyfryw ddatblygwyr trwy gydol	Dim newid

		y broses.	
Cyngor Cymuned Penyffordd	Oes Cynnwys a chyd-drafod mwy yn lleol.	Nodwyd. Nid yw cyflwynydd y sylw yn pennu unrhyw ddulliau ymgysylltu neu ymgynghori penodol a fyddai o gymorth.	Dim newid
C9 – A oes unrhyw grwpiau neu gyrff eraill yr ystyriwch y dylai'r Cyngor eu hychwanegu at y rhestr ymgynghori?			
Y Cyngorydd Hillary McGuill	Oes Unrhyw un y mae'r cynigion yn effeithio arnynt.	Nodwyd. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn esbonio y bydd nifer o ddulliau'n cael eu defnyddio i ymgysylltu ac ymgynghori ag amryw byd o gyrff, grwpiau ac unigolion er mwyn sicrhau cwrpas da a chonsensws. Fodd bynnag, ni fydd modd ymgynghori â phob un unigolyn.	Dim newid
Roundhouse Properties (NJL Properties)	Nac oes Yn fodlon â'r rhestr ond dylid ymgynghori â datblygwyr hefyd.	Nodwyd. Derbynnir bod gan ddatblygwyr ran allweddol yn y broses a rhagwelir y daw'r mwyafrif o'r rhain yn hysbys i'r Cyngor trwy broses y Safleoedd Arfaethedig. Pan fyddant yn rhan o'r system, ymgynghorir â'r cyfryw ddatblygwyr trwy gydol y broses.	Dim newid
Cyngor Cymuned Penyffordd	Oes Sefydliadau a phwyllgorau gwirfoddol lleol, sgowtiaid a geidiaid, sefydliadau, tafarndai a chlybiau ac ati	Nodwyd. Mae Atodiad 3 eisoes yn rhoi rhestr gynhwysfawr o ymgynghoreion. Ni fyddai modd rhestru pob grŵp chwaraeon neu grŵp lleol arall yn unigol yn y ddogfen o ystyried maint a chymhlethdod y Sir a'r costau a fyddai'n gysylltiedig ag ymgynghori â phob un ohonynt. Lle bynnag y bo modd, mae sylwadau cenedlaethol neu ranbarthol wedi'u cynnwys, fel Sgowtiaid. Os oes grwpiau lleol penodol y mae'r Cyngorau Tref a Chymuned o'r farn y dylid ymgynghori â nhw, yna dylid dwyn y rhain i sylw'r Cyngor. Ystyrir hefyd y gall Cyngorau Tref a Chymuned fod â rhan i'w chwarae yn dosbarthu gwybodaeth i grwpiau lleol o'r fath gan y nhw sy'n ymwybodol ohonynt, ac mae ganddynt berthnasoedd gweithio gyda nhw mae'n debyg.	Dim newid
C10 – A ydych o'r farn fod y cyrff hynny sydd wedi'u clustnodi dros dro ar gyfer y Grŵp Rhanddeiliaid allweddol yn briodol?			

<p>Y Cyngorydd Hillary McGuill</p>	<p>Nac ydw Gwasanaethau iechyd, penaethiaid ysgolion lleol, meddygon yn yr ardal ac ati</p>	<p>Mae'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn cynnwys cyrff a sefydliadau allweddol, ymgynghoreion statudol, cynrychiolwyr y sector preifat sy'n gallu chwarae rhan fawr yn gweithredu fel seinfwrdd ar faterion allweddol. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn pennu y bydd Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr yn cael ei gwahodd i fynychu, a bydd cydweithwyr o'r maes Addysg yn ymgynghorai mewnol allweddol o fewn y Cyngor. Byddai'n anymarferol gwahodd penaethiaid ysgolion a meddygol o bob cwr o'r Sir i fforwm o'r fath.</p>	<p>Dim newid</p>
<p>Cyngor Cymuned Argoed</p>	<p>Ydyn Ysgolion lleol / meddygon / fferyllfeydd / BRAND Dileu Un Llais Cymru</p>	<p>Nodwyd Mae'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol yn cynnwys cyrff a sefydliadau allweddol, ymgynghoreion statudol, cynrychiolwyr y sector preifat sy'n gallu chwarae rhan fawr yn gweithredu fel seinfwrdd ar faterion allweddol.</p> <p>Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn pennu y bydd Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr yn cael ei gwahodd i fynychu, a bydd cydweithwyr o'r maes Addysg yn ymgynghorai mewnol allweddol o fewn y Cyngor. Byddai'n anymarferol gwahodd penaethiaid ysgolion a meddygol o bob cwr o'r Sir i fforwm o'r fath, ac nid yw'n glir pa ran fyddai fferyllwyr yn ei chwarae mewn Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol. Er bod gan BRAND ran i'w chwarae trwy gydol proses y Cynllun byddai'n amhriodol cynnwys grŵp buddiant unigol, sydd, yn ôl yr enw ynddo'i hun, yn gwrthwynebu datblygu mewn rhan fach o'r Sir. Byddai eu cynnwys yn creu cysail ar gyfer llu o grwpiau tebyg eraill.</p> <p>Nid yw cyflwynydd y sylw yn rhoi unrhyw esboniad pam y dylid dileu Un Llais Cymru o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol.</p>	<p>Dim newid</p>
<p>Roundhouse Properties (NJL Properties)</p>	<p>Nac ydyn Dylai datblygwyr unigol gael eu cynrychioli yn y Grŵp hefyd.</p>	<p>Nodwyd. Grŵp o ymgynghoreion, sefydliadau a busnesau allweddol (fel cyflogwyr allweddol) yw'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol, sy'n gallu gweithredu mewn modd mwy strategol fel seinfwrdd ar faterion pwysig. Byddai'n amhriodol cynnwys datblygwyr unigol (yn enwedig os ydynt yn hyrwyddo safleoedd datblygu penodol) ar y Fforwm. Cynrychiolir y diwydiant adeiladu tai ar y Fforwm</p>	<p>Dim newid</p>

		gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi.	
Cyngor Cymuned Penyffordd	Sefydliadau a phwyllgorau gwirfoddol lleol, sgowtiaid a geidiaid, sefydliadau, tafarndai a chlybiau ac ati	Nodwyd Grŵp o ymgynghoreion, sefydliadau a busnesau allweddol (fel cyflogwyr allweddol) yw'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol, sy'n gallu gweithredu mewn modd mwy strategol fel seinfwrdd ar faterion pwysig. Byddai'n amhriodol cynnwys clybiau a chymdeithasau unigol o ystyried maint a chymhlethdod y Sir. Rhaid i'r Fforwm weithredu mewn modd strategol yn hytrach na 'phlwyfol'.	Dim newid
Aldi Stores Ltd	Nac ydyn Ymddengys fod buddsoddwyr, yn cynnwys cyflogwyr a thirfeddianwyr â buddiant yn Sir y Fflint sy'n dod o fewn y categori 'preifat' yn Atodiad 4, yn gyfyngedig a dylid eu hehangu felly.	Nodwyd Grŵp o ymgynghoreion, sefydliadau a busnesau allweddol (fel cyflogwyr allweddol) yw'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol, sy'n gallu gweithredu mewn modd mwy strategol fel seinfwrdd ar faterion pwysig. Byddai'n amhriodol cynnwys datblygwyr unigol (yn enwedig os ydynt yn hyrwyddo safleoedd datblygu penodol) ar y Fforwm. Cynrychiolir y diwydiant adeiladu tai ar y Fforwm gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi. Yn yr un modd, byddai'n anodd cynnwys Aldi fel rhan o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol gan y byddai gwneud hynny'n ei gwneud hi'n angenrheidiol cynnwys manwerthwyr bwyd eraill.	Dim newid
C11 – A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffwch eu gwneud ar y Cytundeb Cyflenwi?			
Y Cynghorydd Hillary McGuill	Oes Byddwch gystal â phennu safleoedd i'w hystyried – dewiswch safleoedd tir llwyd gerllaw cymunedau	Nodwyd Mae'n amhriodol i'r Cytundeb Cyflenwi gynnwys gwybodaeth am faterion cynllunio defnydd tir. Bydd digon o gyfle wrth i'r Cynllun gael ei baratoi i edrych ar y mater hwn. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir ei fod yn ffafrio tir llwyd fel rhan o broses chwilio safleoedd ddilyniannol, a bydd y Cynllun yn cael ei baratoi gan ystyried yr arweiniad hwn. Fel y nodwyd uchod, bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i lywio'r broses o gyflwyno safleoedd arfaethedig. Bydd papur manwl dilynol ar asesu safleoedd arfaethedig yn destun ymarferiad ymgynghori ar wahân i sicrhau bod cytundeb eang o ran y fethodoleg i'w dilyn.	
Trigolion Bryn yn Erbyn Datblygiad Newydd	Oes • Mae angen i feini prawf arfarnu	Nodwyd Mae'n amhriodol i'r Cytundeb Cyflenwi gynnwys	Dim newid

	<p>safleoedd gael eu pennu a'u trafod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid rhoi mwy o ystyriaeth a blaenoriaeth i safleoedd tir llwyd wrth geisio darparu ar gyfer datblygiad newydd • Ni fyddai'n briodol, nac yn ddemocrataidd, i wrthod gwrthwynebiadau unigol ar faterion â phwysigrwydd ehangach drwy fynnu eu bod yn cael eu mynegi yn gyfunol. 	<p>gwybodaeth am faterion cynllunio defnydd tir. Bydd digon o gyfle wrth i'r Cynllun gael ei baratoi i edrych ar y mater hwn. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir ei fod yn ffafrio tir llwyd fel rhan o broses chwilio safleoedd ddilysniannol, a bydd y Cynllun yn cael ei baratoi gan ystyried yr arweiniad hwn.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i lywio'r broses o gyflwyno safleoedd arfaethedig. Bydd papur manwl dilynol ar asesu safleoedd arfaethedig yn destun ymarferiad ymgynghori ar wahân i sicrhau bod cytundeb eang o ran y fethodoleg i'w dilyn.</p> <p>Nid yw'r Cyngor am amddifadu pobl o'u hawl ddemocrataidd i gyflwyno gwrthwynebiadau. Yn hytrach, mae am esbonio'r safbwynt i'w fabwysiadu mewn perthynas â deisebau a llythyrau wedi'u rhagargraffu. Denodd y CDU nifer fawr o ddeisebau a llythyrau safonol wedi'u rhagargraffu ac roedd ymateb iddynt yn ystod pob cam yn natblygiad y Cynllun yn orchwyl gweinyddol aruthrol. Fel rhan o bob ymgyrch bostio olynol codwyd amheuan gan drigolion hefyd ynglŷn â dilysrwydd y cyfryw gyflwyniadau, gyda thrigolion mewn rhai achosion yn nodi bod llofnodion wedi'u ffugio.</p> <p>Mae'n hen egwyddor sefydledig mai dilysrwydd dadl gynllunio sy'n bwysig, yn hytrach na'r nifer o weithiau y gwneir y ddadl honno. Yng ngolau'r ystyriaethau hyn, ac i sicrhau bod proses llunio'r Cynllun yn mynd rhagddi'n effeithlon, cynigir mai dim ond pan fydd yn glir bod un man cyswllt y bydd deisebau a llythyrau safonol yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y system. Bydd y Cyngor yn priodoli'n agored nifer yr unigolion y gwneir y ddeiseb ar eu rhan.</p>	
Girlguiding Cymru	Oes Yn meddwl tybed sut fydd hyn yn cael ei weithredu	Nodwyd. Un agwedd bwysig ar broses paratoi'r Cynllun fydd i'r Cyngor ddangos bod polisiâu a chynigion y Cynllun yn realistig a bod modd eu cyflawni. Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys trefniadau monitro i sicrhau y gellir gwerthuso ei berfformiad ac y gellir ysgogi adolygiad os bydd angen.	Dim newid
Y Cynghorydd	Oes	Nodwyd.	Dim newid

Amanda Bragg	A ellid edrych ar safleoedd tir llwyd yn drwyadl fel blaenoriaeth yn y Cynllun. Rhaid sicrhau tryloywder ym mhob cam a chrosawu gwrthwynebiadau.	Mae'n amhriodol i'r Cytundeb Cyflenwi gynnwys gwybodaeth am faterion cynllunio defnydd tir. Bydd digon o gyfle wrth i'r Cynllun gael ei baratoi i edrych ar y mater hwn. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir ei fod yn ffafrio tir llwyd fel rhan o broses chwilio safleoedd ddilyniannol, a bydd y Cynllun yn cael ei baratoi gan ystyried yr arweiniad hwn.	
Cyngor Cymuned Argoed	<p>Oes</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen i feini prawf arfarnu safleoedd gael eu pennu a'u trafod • Dylid rhoi mwy o ystyriaeth a blaenoriaeth i safleoedd tir llwyd wrth geisio darparu ar gyfer datblygiad newydd • Ni fyddai'n briodol, nac yn ddemocrataidd, i wrthod gwrthwynebiadau unigol ar faterion â phwysigrwydd ehangach drwy fynnu eu bod yn cael eu mynegi yn gyfunol. 	<p>Nodwyd</p> <p>Mae'n amhriodol i'r Cytundeb Cyflenwi gynnwys gwybodaeth am faterion cynllunio defnydd tir. Bydd digon o gyfle wrth i'r Cynllun gael ei baratoi i edrych ar y mater hwn. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir ei fod yn ffafrio tir llwyd fel rhan o broses chwilio safleoedd ddilyniannol, a bydd y Cynllun yn cael ei baratoi gan ystyried yr arweiniad hwn.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i lywio'r broses o gyflwyno safleoedd arfaethedig. Bydd papur manwl dilynol ar asesu safleoedd arfaethedig yn destun ymarferiad ymgynghori ar wahân i sicrhau bod cytundeb eang o ran y fethodoleg i'w dilyn.</p> <p>Nid yw'r Cyngor am amddifadu pobl o'u hawl ddemocrataidd i gyflwyno gwrthwynebiadau. Yn hytrach, mae am esbonio'r safbwynt i'w fabwysiadu mewn perthynas â deisebau a llythyrau wedi'u rhagargraffu. Denodd y CDU nifer fawr o ddeisebau a llythyrau safonol wedi'u rhagargraffu ac roedd ymateb iddynt yn ystod pob cam yn natblygiad y Cynllun yn orchwyl gweinyddol aruthrol. Fel rhan o bob ymgyrch bostio olynol codwyd amheuan gan drigolion hefyd ynglŷn â dilysrwydd y cyfryw gyflwyniadau, gyda thrigolion mewn rhai achosion yn nodi bod llofnodion wedi'u ffugio.</p> <p>Mae'n hen egwyddor sefydledig mai dilysrwydd dadl gynllunio sy'n bwysig, yn hytrach na'r nifer o weithiau y gwneir y ddadl honno. Yng ngolau'r ystyriaethau hyn, ac i sicrhau bod proses llunio'r Cynllun yn mynd rhagddi'n effeithlon, cynigir mai dim ond pan fydd yn glir bod un man cyswllt y bydd deisebau a llythyrau safonol yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y system. Bydd y Cyngor yn</p>	Dim newid

		pridoli'n agored nifer yr unigolion y gwneir y ddeiseb ar eu rhan.	
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Oes Mae'n amlwg bod cymunedau a grwpiau lleol yn dymuno cyfrannu mwy at faterion sy'n effeithio ar eu cymuned a'u hardal. Mae ymglymiad agos eu Cyngor Tref a Chymuned yn hollbwysig, ond ar hyn o bryd mae'r Cytundeb Cyflenwi yn cyfyngu r hynny.	Nodwyd. Ni dderbynnir bod y Cytundeb Cyflenwi yn ceisio cyfyngu ar ymglymiad Cyngorau Tref a Chymuned. Gweler ymatebion i gwestiynau eraill.	Dim newid

Atodiad 8 Newidiadau i'r Cytundeb Cyflenwi

Newidiadau i'r Cytundeb Darparu:

Yn ogystal â'r newidiadau sy'n codi o'r sylwadau hynny yn Atodiad 7, gwnaethpwyd y newidiadau canlynol i'r Cytundeb Darparu:

- Golygu a diweddarau'r Crynodeb Gweithredol
- Cynnwys tabl cynnwys
- Cywiriad bach i'r disgrifiad o 'gyrff ymgynghori penodol'
- Cynnwys testun ynglŷn â'r Asesiad o Effaith ar Iechyd

Atodiad 9 Llythyr cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru

Pennaeth yr Adran Gynllunio
Is-adran Polisi Cynllunio
Adran yr Amgylchedd
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

12 Chwefror 2014

Annwyl Andrew,

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint: Cytundeb Darparu
Rheoliadau 9 a 10 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

Diolch i chi am eich e-bost a'ch llythyr atodedig, 23 Ionawr 2014, yn gofyn am gytundeb Llywodraeth Cymru i'r Cytundeb Darparu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint. Rydym yn falch fod adolygiadau wedi'u gwneud mewn ymateb i'r fersiwn ymgynghori cynharach ac mae'n galonogol gweld y cam cyntaf yn cael ei gymryd tuag at gynhyrchu cynllun datblygu newydd i'r ardal.

Ar ran Gweinidogion Cymru rwy'n cadarnhau cytundeb i'r Cytundeb Darparu fel y darparwyd ar ei gyfer yn adran 63(4) o Ddeddf Prynu a Chynllunio Gorfodol 2014 ynghyd â rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

Dylai'r Cytundeb Darparu fod ar gael yn gyhoeddus nawr yn unol â'r gofynion a nodir yn rheoliad 10 gan gynnwys diweddarau gwefan y CDLI. Deallaf fod copi papur o'r Cytundeb Darparu terfynol wedi'i anfon ar wahân at Lywodraeth Cymru (Is-adran Gynllunio).

Mae amserlen y Cytundeb Darparu yn heriol ond yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod cynllun newydd mewn lle cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i CDU Sir y Fflint ddod i ben yn 2015 ac er mwyn hwyluso cyflwyniad Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC). Gan fod y Cytundeb Darparu yn ymrwymiad ar gyfer y Cyngor cyfan mae disgwyl iddo gael ei ddilyn yn gydwybodol a dylid osgoi unrhyw oedi neu newidiadau yn yr amserlen. Mae cyfrifoldeb corfforaethol parhaus dros baratoad y cynllun yn hanfodol a rhaid cadw momentwm drwy gydol y cyfnod paratoi er mwyn darparu cynllun mabwysiedig a fydd yn help i lywio datblygiad a chynyddu manteision i'r gymuned.



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Paro Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 029 2082 3732
mark.newey@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Heb niweidio doethineb y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i helpu awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau cynlluniau cadarn cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae swyddogion yn barod i gyfarfod â chi a'ch cydweithwyr yn rheolaidd i ddarparu cyngor ac arweiniad ar arfer gorau.

Os hoffech drafod hyn neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r cynllun datblygu, mae croeso i chi gysylltu â thîm y Cynllun Datblygu.

Yn gywir



Mark Newey
Pennaeth Cangen Gynlluniau
Is-adran Gynllunio